

MILLER



Research Evaluation Consulting

# Gwerthusiad Economaidd a Chymdeithasol o'r Sector Gweithgareddau Awyr Agored yng Nghymru

Adroddiad terfynol

Fforwm Arfordir Sir Benfro


Nick Miller, Hannah Sterritt, Emilio Solis, Carly Wise, Joseff  
Howells / Miller Research (UK) Ltd.



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Hannah Sterritt

[hannah@miller-research.co.uk](mailto:hannah@miller-research.co.uk)



*This project is funded by Welsh Government's Coastal Capacity Building Challenge Fund, administered by WCVA.*

*Ariennir y prosiect hwn gan Gronfa Her Meithrin Gallu Arfordirol Llywodraeth Cymru, a weinyddir gan WCVA*

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK

[www.miller-research.co.uk](http://www.miller-research.co.uk) | 01873 851880 | Twitter: @miller\_research

## Tabl cynnwys

Crynodeb .....	1
Cyd-destun .....	1
Canfyddiadau Allweddol .....	1
1.    Cyflwyniad .....	7
Ymchwil a Pholisi Blaenorol Perthnasol .....	8
2.    Canfyddiadau'r Ymchwil .....	12
Dull yr Ymchwil .....	12
Canfyddiadau .....	14
Rhesymau dros gymryd rhan mewn twristiaeth gweithgareddau awyr agored .....	19
Bodddhad Ymwelwyr .....	22
Effeithiau economaidd twristiaeth gweithgareddau awyr agored .....	28
Effaith economaidd busnesau twristiaeth gweithgareddau awyr agored yng Nghymru .....	38
Gwerth Cymdeithasol Gweithgareddau Awyr Agored .....	42
3.    Casgliadau ac Argymhellion .....	55
Casgliadau .....	55
Argymhellion .....	56
4.    Atodiadau .....	59
Atodiad A – Proffiliau Cyfranogwyr .....	59
Atodiad B – Gwahanol Ddulliau o Fesur Gwerth Cymdeithasol .....	62
Atodiad C – Astudiaeth o Effaith Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored – Cyfranogwyr .....	69
Atodiad D – Astudiaeth o Effaith Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored – Darparwyr Twristiaeth .....	75
Atodiad E – Tablau Data Economaidd .....	81

## Rhestr tablau

Tabl 1 – Cyfanswm Gwariant Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored gan Gyfranogwyr.....	4
Tabl 2 – Effeithiau Economaidd y sector Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored.....	5
Tabl 3 – Gwariant ymwelwyr y Deyrnas Unedig 2021.....	10
Tabl 4 –Gwariant cyfartalog y diwrnod ar gyfer gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau twristiaeth gweithgareddau awyr agored.....	29
Tabl 5 – Hyd arhosiad cyfranogwyr yng Nghymru yn ôl math o lety.....	32
Tabl 6 – Gwariant ar lety fesul noson yn ôl math o lety.....	33
Tabl 7 – Gwariant cyfartalog ar y trip cyfan, yn ôl math o lety.....	33
Tabl 8 – Tarddiadau ymwelwyr i Gymru.....	35
Tabl 9 – Nifer o Ymweliadau o Arolwg Ymwelwyr Prydain Fawr.....	36
Tabl 10 – Cyfanswm Gwariant Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored (Effaith Gros).....	36
Tabl 11 – Cyfanswm incwm a gynhyrchir gan fusnesau.....	41
Tabl 12 – Cyfanswm effeithiau busnes.....	42
Tabl 13 – Gwerth twristiaeth awyr agored i iechyd meddwl yng Nghymru.....	45
Tabl 14 – Gwerth twristiaeth awyr agored i iechyd meddwl yng Nghymru.....	46
Tabl 15 – Manteision ac anfanteision a restrwyd gan fusnesau o gael eu busnes yng Nghymru.....	54
Tabl 16 – Cyfran fras o ymwelwyr wedi eu hollti yn ôl ystod oedran.....	60
Tabl 17 – Gwerth cymdeithasol a gyfrifwyd trwy ddull Opsiwn 1.....	63
Tabl 18 – Gwerth cymdeithasol a gyfrifwyd trwy ddull Opsiwn.....	65
Tabl 19 – Gwerthoedd procsi a bennwyd ar gyfer dewisiadau amgen anariannol a gynigiwyd i gyfranogwyr.....	67
Tabl 20 – Gwerth cymdeithasol a gyfrifwyd o werthoedd procsi a bennwyd ar gyfer dewisiadau anariannol eraill.....	68
Tabl 21 – Cymharu gwerth cymdeithasol rhwng tri opsiwn.....	68
Tabl 22 – Gwariant cyfranogwyr ar weithgaredd vs gwariant arall, ac eithrio llety.....	81
Tabl 23 – Cyfran o wariant ar lety, y noson yn ôl math o lety.....	82
Tabl 24 – Cyfran o wariant ar lety yn ôl math o lety.....	83

## Rhestr ffigurau

Ffigur 1 – Map Gwres o Leoliadau Ymatebwyr i'r Arolwg Cyfranogwyr.....	13
Ffigur 2 - Map Gwres o Leoliadau Ymatebwyr i'r Arolwg Busnesau.....	13
Ffigur 3 – Pa rai o'r gweithgareddau antur awyr agored canlynol ydych chi wedi'u cyflawni yng Nghymru yn y flwyddyn ddiwethaf a pha mor aml? .....	15
Ffigur 4 –Wrth feddwl am y gweithgaredd rydych chi wedi'i wneud amlaf yn y flwyddyn ddiwethaf, yn lle ydych chi fel arfer yn gwneud y gweithgaredd awyr agored hwn yng Nghymru? .....	17
Ffigur 5 – Pa un o'r canlynol fyddech chi'n ddweud sy'n adlewyrchu orau y gweithgaredd rydych chi wedi ei wneud amlaf yn y flwyddyn ddiwethaf? .....	18
Ffigur 6 – Rhesymau dros gymryd rhan mewn chwaraeon antur awyr agored – unigolion.....	19
Ffigur 7 – Canfyddiadau busnesau o fuddion i ymwelwyr gweithgareddau awyr agored .....	20
Ffigur 8 – Y tro diwethaf y gwnaethoch gymryd rhan yn y gweithgaredd yng Nghymru, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich ymweliad orau? .....	21
Ffigur 9 – Y tro diwethaf ichi gymryd rhan yn y gweithgaredd yng Nghymru, pa mor hir wnaethoch ei dreulio'n cyflawni'r gweithgaredd? .....	21
Ffigur 10 – Cwestiynau Boddhad Ymwelwyr yr Arolwg .....	22
Ffigur 11 – Disgrifiwch y rhan orau o'ch profiad o weithgareddau awyr agored yng Nghymru.....	23
Ffigur 12 – A oes unrhyw beth ynghylch eich profiad o weithgareddau awyr agored yng Nghymru y gellid bod wedi ei wella? .....	24
Ffigur 13 – Pe bai tabl cynghrair ryngwladol o gyrchfannau gweithgareddau awyr agored, lle fyddai'n Cymru'n arno? .....	25
Ffigur 14 – Dros y tair blynedd ddiwethaf a yw enw da Cymru fel cyrchfan gweithgareddau awyr agored wedi cynyddu, lleihau, neu aros yr un fath? .....	27
Ffigur 15 – Fel rhan o'ch trip i wneud y gweithgaredd awyr agored, lle wnaethoch chi aros? .....	30
Ffigur 16 – Faint wnaethoch chi wario ar eich llety yn unig yng Nghymru, fesul person, fesul nos?.....	31

Ffigur 17 – Sawl noson wnaethoch chi aros yng Nghymru? .....	32
Ffigur 18 – O'ch profiad chi, pa gyfran o'ch ymwelwyr sy'n ymwelwyr am ddiwrnod, ac o'r tu allan i'r rhanbarth ac yn talu am lety dros nos? ...	35
Ffigur 19 – Beth yw eich trosiant blynyddol?.....	39
Ffigur 20 – Beth fydddech chi'n ei ddweud yw canran gyfartalog eich elw? ....	40
Ffigur 21 – Pa gyfran o wariant blynyddol eich busnes a amcangyfrifwch sydd gyda chyflenwyr yn eich ardal leol, Cymru a'r tu allan i Gymru? .....	41
Ffigur 22 – A oes unrhyw ffyrdd mae eich profiad(au) antur yng Nghymru wedi newid eich hyder, ysbryd anturus, neu gysylltiad â natur, ac os felly, beth ydych chi wedi sylwi arnoch eich hun yn ei wneud yn wahanol o ganlyniad?.....	48
Ffigur 23 – Os ydych chi'n archebu anturiaethau trwy ddarparu, pa mor bwysig i chi yw bod ganddynt synnwyr cryf o genhadaeth a phwrpas cymdeithasol? .....	49
Ffigur 24 – Yn y tair blynedd nesaf, sut ydych chi'n rhagweld y bydd trosiant a gweithlu eich busnes yn newid? .....	51
Ffigur 25 – Pa weithgareddau awyr agored mae eich sefydliad / busnes yn eu darparu?.....	53
Ffigur 26 – Nodwch eich ystod oedran.....	59
Ffigur 27 – Sut ydych chi'n diffinio eich rhywedd? .....	60
Ffigur 28 – Nodwch eich ethnigrwydd .....	61
Ffigur 29 – Ydych chi'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig?.....	62
Ffigur 30 – Dychmygwch fod yn rhaid ichi dalu ffi trwydded flynyddol am gymryd rhan yn y gweithgaredd rydych yn cymryd rhan ynddo amlaf, faint fydddech chi'n barod i'w dalu?.....	63
Ffigur 31 – Dychmygwch ein bod wedi gofyn i chi beidio â chymryd rhan yn eich hoff weithgaredd am flwyddyn. Faint fyddai angen i chi gael eich talw i beidio â chymryd rhan? .....	64
Ffigur 32 – Pa ffactorau ydych chi'n eu gwerthfawrogi ynghylch twristiaeth gweithgareddau awyr agored? .....	65
Ffigur 33 – O roi'r cwestiwn mewn ffordd arall, sut fydddech chi'n rhoi gwerth ar weithgaredd diwrnod fel cyfnewid am un o'r canlynol:.....	66

## Crynodeb

### Cyd-destun

- i. Fe wnaeth Fforwm Arfordir Sir Benfro gomisiynu Miller Research ym mis Chwefror 2023 i gyflawni Gwerthusiad Economaidd a Chymdeithasol o'r Sector Gweithgareddau Awyr Agored yng Nghymru. Mae'r gwaith yn adeiladu ar astudiaeth gynharach<sup>1</sup> a oedd yn amcangyfrif cyfanswm cyfraniad economaidd o £481m yn flynyddol i Gymru o'r sector. Cafodd y gwaith hwn ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i weinyddu trwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Phartneriaethau Natur Lleol Cymru.
- ii. Roedd cwrpas yr astudiaeth yn cynnwys gweithgareddau antur awyr agored sy'n disgyn o fewn diffinad y sector awyr agored a amlinellir gan Gymdeithas Twristiaeth Anturiaeth Cymru (WATO). Roedd hyn yn cynnwys y categorïau canlynol: dringo, chwaraeon dŵr, gweithgareddau cyfun dŵr a chreigiau, teithiau cerdded a gweithgareddau ar y tir, ogofa, a chwaraeon awyr.
- iii. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil, a oedd yn seiliedig ar gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid y diwydiant ac ar ddau arolwg; un ar gyfer rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau antur awyr agored, a'r llall ar gyfer busnesau gweithgareddau antur awyr agored yng Nghymru. Cafodd yr arolygon eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac roeddent yn agored i ymatebion am ddwy wythnos yng ngwanwyn 2023, gan ddenu cyfanswm o 606 o ymatebion.

### Canfyddiadau Allweddol

#### *Trosolwg*

- iv. Mae twf sylweddol a newid mewn proffil wedi bod mewn twristiaeth gweithgareddau awyr agored yng Nghymru ers yr astudiaeth flaenorol

---

<sup>1</sup> Effaith Economaidd Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored yng Nghymru: Adroddiad Miller Research 2014

yn 2014, yn ymwneud yn bennaf â'r ymchwydd ôl-Covid mewn ymwelwyr aros yng Nghymru ynghyd â chynnydd yn y defnydd o lety hunan-ddarpar (o bosibl yn adlewyrchu'r cynnydd mewn Air BnB a llwyfannau eraill). Mae'r cymhelliad dros gymryd rhan hefyd wedi newid yn ddramatig – gyda cheisio cymorth i iechyd meddwl a theimlad o lesiant yn sefyll allan fel yr ystyriaethau amlycaf bellach. Roedd bron bawb o'r ymatebwyr i'r arolwg (99 y cant) yn diffinio'r rhain fel ffactorau pwysig, a 94 y cant yn eu nodi fel rhai hynod bwysig neu bwysig iawn.

- v. Mae Cymru'n denu lefel anghymesur o uchel o dwristiaeth (naw y cant o nosweithiau ymwelwyr Prydain Fawr o gymharu â llai na phump y cant o'r boblogaeth). Mae'n arwyddocaol fod hyn wedi ei ganolbwyntio ar ardaloedd gwledig ac arfordirol, sy'n draddodiadol yn cynnig llai o gyfleoedd am waith cyflogedig mewn sectorau eraill.
- vi. Roedd ymwelwyr yn mynegi graddau uchel o foddhad gyda Chymru fel cyrchfan. Dywedodd cyfanswm o 94 y cant o ymatebwyr y byddent yn dod i Gymru eto i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a byddai'r un gyfran yn argymhell Cymru fel cyrchfan gweithgareddau awyr agored i ffrind neu berthynas. Llai na hanner y rheini a ymatebodd i'r arolwg (46 y cant) a fyddai wedi ymweld â Chymru pe na baent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.
- vii. Cafodd ansawdd y tirwedd ei nodi fel nodwedd fwyaf nodedig Cymru, gyda'r tirlun yn cael ei ddisgrifio fel 'unigryw', 'heddychlon', 'hardd' ac yn cyfleu 'rhyddid'. O ran y cynnig twristiaeth, roedd ymwelwyr yn hael iawn eu canmoliaeth ynghylch:
  - y dewis sydd ar gael
  - cyfeillgarwch pobl Cymru
  - gwybodaeth hyfforddwyr, ac
  - ansawdd y lletygarwch sydd ar gael.
- viii. O ran gwelliannau y gellid eu gwneud i wella profiad ymwelwyr, roedd y prif ffactorau yn ymwneud â mynediad a seilwaith – gan gynnwys



trafnidiaeth gyhoeddus, parcio a thoiledau. Roedd y tywydd hefyd yn cael ei weld fel rhywbeth negyddol.

- ix. Busnesau twristiaeth gweithgareddau awyr agored oedd fwyaf tebygol o raddio Cymru yn y deg uchaf o gyrchannau gweithgareddau ledled y byd (48 y cant o ymatebwyr), er bod 45 y cant yn gosod Cymru yng nghanol y tabl. Roedd hyn yn adlewyrchu barn ymwelwyr, fod Cymru'n cynnig tirweddau o ansawdd da iawn, ond bod arni angen mwy o gefnogaeth o ran seilwaith a mynediad i lecynnau gwyrdd a glas. Fodd bynnag, teimlai bron ddau draean o fusnesau fod enw da Cymru fel cyrchfan awyr agored wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf – o bosibl o ganlyniad i wyliau o fewn Prydain a orfodwyd gan Covid-19 yn arwain pobl i brofi'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig.
- x. Profodd Cymru gynnydd sylweddol mewn twristiaeth ddomestig o ganlyniad i'r pandemig Covid-19, gyda llawer o ymwelwyr o Loegr yn cymryd eu prif wyliau yng Nghymru oherwydd y dewisiadau cyfyngedig o ran teithio dramor. Ar yr un pryd, cofnodwyd lleihad o 88 y cant mewn ymwelwyr tramor a 90 y cant o gwmp mewn incwm a gynhyrchwyd gan ymwelwyr tramor yn 2021 o gymharu â 2019.<sup>2</sup>
- xi. Gallai Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) roi hwb sylweddol i'r sector, o safbwynt rhagamcan o £9.9m-£13.6m o wariant blynyddol ychwanegol gyda darparwyr, ond hefyd, yn allweddol, trwy gyflwyno i bob plentyn y manteision o brofi gweithgareddau awyr agored.

#### *Cyfraniad Economaidd y Sector i Gymru*

- xii. Cafodd data yr arolwg o gyfranogwyr ei driongli â data swyddogol o Arolwg Ymwelwyr Prydain 2021 i fodelu'r nifer o ymwelwyr gweithgareddau awyr agored oedd yn aros am dair awr neu fwy, diwrnod llawn neu o leiaf dros un noson.

---

<sup>2</sup> [Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a sefyllfa bresennol y sector twristiaeth yng Nghymru, 2021.](#)

- xiii. Cysylltwyd y canlyniadau ag amcangyfrifon gwario a dynnwyd o'n harolwg i gyfrifo'r cyfanswm blynyddol a wariwyd gan y rheini a gymerodd ran mewn gweithgareddau awyr agored (budd gros gwariant yn y sector). Awgryma hyn fod cyfanswm yr incwm o driplau cysylltiedig â gweithgareddau awyr agored yng Nghymru yn £1.6bn yn2021.

**Tabl 1 – Cyfanswm Gwariant Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored gan Gyfranogwyr**

	3+ awr	Tripiau diwrnod	Aros
Gwariant/diwrnod (Data arolwg), £	31.45	64.23	160.13
Niferoedd (Twristiaeth gweithgareddau awyr agored o Arolwg Ymwelwyr Prydain)	14.50	4.00	5.56
Cyfanwm gwariant yn ôl hyd y trip (£m)	456.03	256.92	890.96
Cyfanswm gwariant (Pob trip) (£m)			1,603.91

Ffyhonnell: Arolwg Ymwelwyr Prydain 2021, Arolwg Cyfranogwyr

- xiv. O safbwynt effaith economaidd ar Gymru – cafodd dwy elfen ei hystyried:
- Effaith twristiaeth gweithgareddau awyr agored ar economi Cymru yn nhermau gwariant ychwanegol yng Nghymru na fyddai wedi digwydd fel arall. Mae hyn yn seiliedig ar wario gan bobl sy'n byw y tu allan i Gymru ar weithgarwch yng Nghymru, ac ailgylchu'r arian hwnnw gan fusnesau sy'n derbyn y gwariant. Mae felly'n cynnwys lluosyddion i gyfrif am arian a ailgylchwyd yn economi Cymru trwy fuddsoddi mewn mewnbynnau a chyflogau. Mae hyn yn rhoi cyfanswm effaith net o £1.619bn yn flynyddol a chefnogi 31,278 o swyddi (21y canto o holl swyddi twristiaeth yng Nghymru<sup>3</sup>).

<sup>3</sup> Ar sail £3.4bn gwerth ychwanegol gros a 151,000 cyfanswm swyddi a gymerwyd o Broffil Economi Ymwelwyr Cymru 2021, er bod amcangyfrif yn 2013 o Visit Britain yn amcangyfrif bod yr economi dwristiaeth yng Nghymru yn fwy, yn werth £6.9bn ac yn cefnogi 206,000 o swyddi.

**Tabl 2 – Effeithiau Economaidd y sector Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored**

	2023	2014
Cyfanswm gwariant, £m	1,604	601
Gwariant ychwanegol i Gymru	1,148	304
Effaith uniongyrchol		
Allbwn £m	1,619	429
Cyflogaeth (cyfwerth ag amser llawn (FTE))	29,428	7,551
Cyfanswm Effaith Economaidd Net		
Allbwn (£)	1,825	481
Cyflogaeth (cyfwerth ag amser llawn (FTE))	31,278	8,243

- Effaith economaidd *busnesau* twristiaeth gweithgareddau awyr agored yng Nghymru. Mae hyn yn seiliedig ar y gyfran o ymatebwyr i'r arolwg ymwelwyr a adroddodd am ddefnyddio darparwr gweithgareddau a'u gwariant cyfartalog i fodelu'r incwm i ddarparwyr.
- Mae hyn yn awgrymu cyfanswm incwm i fusnesau darparwyr o £114.98m yn flynyddol, gyda 38 y cant ohono'n cael ei wario mewn cymunedau lleol a 37 y cant pellach ledled Cymru fel cyfanrwydd. Gan ddefnyddio'r un lluosyddion ag uchod, mae hyn yn awgrymu effaith economaidd net busnesau twristiaeth gweithgareddau awyr agored o £272.87m yn flynyddol, gyda £205m ohono'n cael ei gadw yng Nghymru.
- Mae cadw 38 y cant o incwm yn y gymuned leol yn cynrychioli cyfraniad sylweddol i'r economi sylfaenol yn llawer o ardaloedd gwledig ac arfordirol Cymru.
- Diddorol yw nodi bod unigolion sy'n ymwneud â darparwr gweithgareddau awyr agored yn tueddu i aros yn hirach a bod â gwariant sylweddol uwch y diwrnod. Awgryma hyn y dylid annog gweithgarwch trwy fynediad a drefnwyd i dir a dŵr os yw

Cymru am fanteisio i'r eithaf ar ei hasedau naturiol, gan hefyd gyfyngu ar ddifrod amgylcheddol trwy orddefnyddio.

- xv. Dangosdd yr arolygon cyfranogwyr a'r arolygon busnes bwysigrwydd iechyd meddwl a llesiant fel ffactorau a oedd yn symbylu cymryd rhan mewn twristiaeth gweithgareddau awyr agored. Gan ddefnyddio'r gyfran o ymatebwyr a ganolbwyntiodd ar fuddion iechyd meddwl (63 y cant) ac amcangyfrif ar gyfer gwerth iechyd ataliol hynny i amcangyfrif o 20 y cant o gyfranogwyr bregus, cyfrifwn fod gwerth iechyd meddwl y sector yn £26.54m i Gymru a £47.5m i'r Deyrnas Unedig.
- xvi. Yn ogystal, awgryma dadansoddiad sensitifrwydd gan ddefnyddio ffigurau seiliedig ar fodel a baratowyd i Sport England y gallai cynnydd o 10 y cant mewn cymryd rhan gyflawni cynnydd mewn gwerth cymdeithasol o £187m wedi daenu ar draws iechyd corfforol a meddyliol, datblygiad unigolion, a chyfalaf cymdeithasol.
- xvii. Awgryma hyn y byddai buddsoddiad ychwanegol mewn seilwaith i ddarparu mynediad i unigolion mwy bregus yn talu'n ôl trwy'r gwasanaeth iechyd o dan agenda atal.

## 1. Cyflwyniad

### *Cefndir*

- 1.1 Fe wnaeth Fforwm Arfordir Sir Benfro gomisiynu Miller Research ym mis Chwefror 2023 i gyfawni Astudiaeth o Effaith Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored ar Gymru. Mae'r astudiaeth hon yn ceisio diweddarau dealltwriaeth o effaith economaidd y sector gweithgareddau antur ac ystyried gwerth cymdeithasol y gweithgareddau hyn yng Nghymru. Mae hyn gyda'r nod o osod llinell sylfaen o werth cymdeithasol ac economaidd presennol er mwyn galluogi creu cynllun strategol ar gyfer twristiaeth antur.
- 1.2 Mae'r astudiaeth hon yn adeiladu ar waith a gyflawnwyd gan Miller Research yn 2014 ar effaith economaidd twristiaeth gweithgareddau awyr agored yng Nghymru ac mae'n rhoi dadansoddiad o arolygon, asesiad o effaith ac phroffiliau ymwelwyr y sector.
- 1.3 Roedd cwmpas yr adroddiad, a'r dosbarthiadau gweithgareddau o'i fewn yn gyson â diffiniadau Cymdeithas Twristiaeth Anturiaeth Cymru (WATO) o antur a gweithgareddau cysylltiedig. Mae'r rhain fel a ganlyn:

“Antur yw lle mae'r pwyslais ar ymwneud â'r amgylchedd naturiol mewn modd sy'n heriol yn gorfforol lle mae medrusrwydd ac elfen o risg yn rhan ganolog o'r profiad a lle mae'r cyfranogwr yn ceisio gwerthfawrogi nodweddion esthetig yr amgylchedd naturiol mewn modd heddychlon.”
- 1.4 Caiff y 'gweithgareddau dan arweiniad' craidd sy'n disgyn o fewn diffiniad o'r sector awyr agored, fel y'u diffiniwyd gan gynlluniau arolygu/achredu gweithgareddau antur yn y Deyrnas Unedig, eu rhestru o dan y categorïau canlynol:
  - Dringo: abseilio, bowldro, dringo rhew, dringo creigiau, cyrsiau rhaffau (gan gynnwys gwifrau gwib)
  - Chwaraeon dŵr: hwylyrddio, canwio, deifio, rafftio, caiacio (gan gynnwys caiacio afon, môr, brigdonnau ac eistedd ar ben

caiac), hwylio, syrffio barcud, padlfyrddio sefyll, rafftio dŵr gwyn, nofio gwyllt, syrffio gwynt.

- Gweithgareddau cyfun dŵr a chreigiau: canŵio ceunentydd, arfordiro, cerdded ceunentydd, croesi lefel y môr
- Teithiau cerdded hir a gweithgareddau tir: byw yn y gwyllt, cerdded yr arfordir\* (ac eithrio ardaloedd trefol), rhedeg llethrau, rhedeg mynydd, merlota, cerdded iseldir a rhostir, mynydda, beicio mynydd, beicio oddi ar y ffordd, cyfeiriannu, beicio ffordd (ac eithrio ardaloedd trefol), scrambling, sgïo, eirafyrddio
- Ogofa: ogofa, ogofa dan ddaear, crwydro mwyngloddiau
- Chwaraeon aer: paragleidio.<sup>4</sup>

## **Ymchwil a Pholisi Blaenorol Perthnasol**

*Effaith Economaidd Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored yng Nghymru, Miller Research 2014*

- 1.5 Yn 2014 cafodd Miller Research eu comisiynu i gyflawni astudiaeth o effaith economaidd twristiaeth gweithgareddau awyr agored yng Nghymru. Defnyddiodd yr astudiaeth ymchwil uniongyrchol ac eilaidd i ddeall profiadau ymwelwyr a busnesau ac i benderfynu cyfraniad y sector i'r economi ehangach.
- 1.6 Dangosodd canfyddiadau o'r ymchwil hwn fod Cymru'n cael ei graddio fel cyrchfan sydd ar y brig ar gyfer profiadau twristiaeth awyr agored ac antur, ac roedd yn amlwg fod y galw am dwristiaeth gweithgareddau awyr agored yn cynyddu. Roedd y galw am weithgareddau twristiaeth awyr agored, a'r graddau roeddent ar gael, wedi ysgogi darparwyr gwasanaethau i ehangu busnesau yn y diwydiant. Fodd bynnag, roedd y rhwystrau rhag twf cynhyrchiol, cydweithredol a chynaliadwy yn y diwydiant a ddaeth i'r amlwg o'r

---

<sup>4</sup> [Diffiniad WATO o antur a gweithgareddau cysylltiedig Mai 2023](#)

ymchwil yn cynnwys lefelau uchel o gystadleuaeth a gor-ddarpariaeth o wasanaethau a chynigion.

- 1.7 Dywedwyd fod y diffyg cyfweithrediad rhwng gweithredwyr yn y diwydiant yn peri'r risg o brofiad twristiaeth gweithgareddau tameidiog yng Nghymru. Roedd y rheini o fewn y sector yn nodi hefyd y byddai cymorth llywodraeth trwy bolisi yn angenrheidiol er mwyn i'r sector gyfrannu'r buddion economaidd llawnaf i Gymru.
- 1.8 Er hyn, roedd y diwydiant yn dal i gyfrannu swm sylweddol i GDP Cymru. Amcangyfrifiwyd bod cyfanswm cyfraniad blynyddol twristiaeth gweithgareddau awyr agored i economi Cymru tua £481m neu 6 y cant o gyfanswm cyfraniad economaidd yr holl dwristiaeth yng Nghymru.<sup>5</sup>

#### *Ystadegau Twristiaeth Domestig Prydain Fawr (tripiau dros nos) 2021*

- 1.9 Mae'r adroddiad hwn yn darparu data ar dripiâu dros nos gan drigolion Prydain i gyrchfannau ledled Prydain rhwng misoedd Ebrill a Rhagfyr 2021.<sup>6</sup> Yn ystod y cyfnod adrodd, gwariwyd cyfanswm o £1,979 miliwn ar dros 9.97 miliwn o dripiâu dros nos i Gymru – gan gynrychioli saith y cant o wariant ymwelwyr Prydain.<sup>7</sup>
- 1.10 Profodd Cymru wyth y cant o'r holl dripiâu gan drigolion Prydain, er ei bod yn cyfrif am lai na phump y cant o boblogaeth Prydain. Roedd tua 51 y cant o'r tripiâu hyn a wnaed i Gymru yn ymweliadau hamdden. Mae hyn yn awgrymu bod Cymru'n gyrchfan o bwys o ran teithio hamdden, yn ogystal â theithio i ddibenion busnes neu ymweliadau â ffrindiau neu berthnasau, a oedd gyda'i gilydd yn ffurfio 33 y cant o dripiâu.
- 1.11 Mae Tabl 3 yn amlinellu'r nifer o dripiâu, nosweithiau a gwariant sy'n gysylltiedig ag ymweliadau domestig â chenhedloedd Prydain Fawr.

---

<sup>5</sup> Effaith Economaidd Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored yng Nghymru: Adroddiad Miller Research 2014

<sup>6</sup> Nid oes data ar gael ar gyfer misoedd Ionawr hyd Fawrth 2021 oherwydd y cyfyngiadau Covid-1o ar y pryd.

<sup>7</sup> [Domestic GB Tourism Statistics \(Overnight Trips\): 2021](#)

**Tabl 3 – Gwariant ymwelwyr y Deyrnas Unedig 2021**

	Lloegr	Yr Alban	Cymru
Tripiau (miliynau)	100.20	13.61	9.97
% o dripiâu Prydain Fawr	84%	11%	8%
Nosweithiau (miliynau)	337.34	47.06	36.52
% o dripiâu Prydain Fawr	80%	11%	9%
Gwariant	£22,233m	£2,991m	£1,979m
% o dripiâu Prydain Fawr	82%	11%	7%

Ffynhonnell: GBTS

- 1.12 Canfyddiad diddorol o'r adroddiad yw'r mathau o leoliadau yr ymwelwyd â hwy yng Nghymru o gymharu â lleoliadau yr ymwelwyr â hwy ym Mhrydain yn ei chyfanrwydd. Yng Nghymru, roedd 74 y cant o dripiâu yn cynnwys ymweliadau â chefn gwlad, pentrefi, trefi bach, a threfi glan môr / arfordirol, tra nad oedd ond 59 y cant o dripiâu ym Mhrydain yn ehangach i'r mathau hyn o leoliadau. Dengys hyn werth twristiaeth i'r Gymru wledig, lle gall yr economi fod yn fregus fel arall.

*Datblygu'r Bil Addysg Awyr Agored (Cymru)*

- 1.13 Cam arwyddocaol a gymerwyd i gefnogi'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yw cynnig datblygu'r Bil Addysg Awyr Agored (Cymru). Mae'r bil arfaethedig yn amlinellu rhwymedigaeth i awdurdodau lleol ddarparu cyllid i bobl ifanc gael cyfle i gymryd rhan mewn addysg awyr agored ac amgylcheddol.<sup>8</sup>
- 1.14 Byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithgareddau a'r rhwymedigaethau statudol yn cael eu cyflawni. Mae'r bil yn ei gwneud yn ofynnol y bydd plant, am o leiaf un wythnos rywbryd yn

---

<sup>8</sup> [Datblygu'r Bil Addysg Awyr Agored \(Cymru\)](#)



ystod eu gyrfa ysgol, yn cymryd rhan mewn rhaglen breswyl addysg awyr agored.

- 1.15 Mae hwn yn amcan pwysig a llesol, gyda'r Bil arfaethedig yn dangos symudiad o weithgaredd cyfoethogi i elfen â hawl yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae ymchwil wedi dangos bod profiad o natur a meithrin dealltwriaeth o fyd natur â chysylltiadau clir ag annog ei warchod ac ymddygiad cefnogol i'r amgylchedd.<sup>9</sup> Yn ogystal, mae darnau o ymchwil y cyfeirir yn helaeth atynt sy'n dangos y buddion mae'n ei gael ar iechyd meddwl.<sup>10</sup>

#### *Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r ecoomi ymwelwyr 2020 – 2025*

- 1.16 Mae'r ddogfen strategol hon ar gyfer y diwydiant twristiaeth yng Nghymru<sup>11</sup> yn nodi bod y sector wedi mwynhau twf cryf o'r farchnad ddomestig dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys twf o 14 y cant yn 2019 yn unig. Dywed yr adroddiad fod "twristiaeth yng Nghymru wedi cael ei drawsnewid; mae ein tirweddau naturiol eithriadol bellach yn llawn profiadau ysbrydoledig o ansawdd uchel," ac mae'n crybwyll anturiaethau arloesol ar frig y rhestr o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig. Mae "anturiaethau epig" yn ffurfio un o'r tair colofn o'r cynnig craidd i ymwelwyr.
- 1.17 Fodd bynnag, nodir bod angen i'r twf yn y sector fod yn gynaliadwy, gan gyflawni nodau cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a llesiant yn ogystal â pherfformiad economaidd.

---

<sup>9</sup> [The Importance of Pro-Environmental Behaviour in Adolescent](#)

<sup>10</sup> [Natur ac iechyd meddwl](#)

<sup>11</sup> [Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 - 2025](#)


## 2. Canfyddiadau'r Ymchwil

### Dull yr Ymchwil

2.1. Cafodd dau arolwg eu datblygu, un i gyfranogwyr gweithgareddau antur awyr agored yng Nghymru a'r llall i fusnesau gweithgareddau o'r fath. Cafodd yr arolygon eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac roeddent yn agored ar gyfer ymatebion rhwng 27 Chwefror a 12 Mawrth 2023. Caofdd ymgyrch farchnata helaeth ei harwain gan Fforwm Arfordir Sir Benfro i hyrwyddo'r arolwg.


- Derbyniodd yr arolwg cyfranogwyr 563 o ymatebion cyflawn, gyda 36 ohonynt wedi eu cyflwyno yn y Gymraeg. Dengys Ffigur 1 fod y nifer uchaf o gyfranogwyr wedi eu canoli o gwmpas Caerdydd a De-ddwyrain Cymru, gyda niferoedd uwch o ymatebion wedi cael eu derbyn hefyd gan gyfranogwyr yng Ngorllewin Cymru a Gogledd-orllewin Cymru.
- Derbyniodd yr arolwg busnesau 43 o ymatebion cyflawn, heb ddim yn wedi ei gyflwyno yn y Gymraeg. Mae lleoliad y busnesau a ymatebodd yn adlewyrchu "poethfannau" Parciau Cenedlaethol Eryri, Bannau Brycheiniog ac Arfordir Sir Benfro, fel y dangosir yn Ffigur 2.

**Ffigur 1 – Map Gwres o Leoliadau Ymatebwyr i'r Arolwg Cyfranogwyr**



Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr

**Ffigur 2 - Map Gwres o Leoliadau Ymatebwyr i'r Arolwg Busnesau**



Ffynhonnell: Arolwg Busnesau

2.2. Yn ogystal, cynhaliwyd pedwar cyfweiliad ansoddol manwl gyda darparwyr gweithgareddau awyr agored o bob rhan o Gymru er mwyn ennill mwy o ddealltwriaeth o gryfderau a heriau twristiaeth gweithgareddau awyr agored yng Nghymru a sut y gellir datblygu'r sector mewn ffordd yn diwallu anghenion ymwelwyr, darparwyr a chymunedau mewn modd cynaliadwy.

#### *Dull dadansoddi*

2.3. Cafodd ymatebion i'r arolygon eu dadansoddi fesul cwestiwn gan ddefnyddio cyfuniad o SmartSurvey, Microsoft Excel, PowerBI a chodiodd ansoddol â llaw.

2.4. Cyflawnwyd dadansoddi pellach trwy driongli ymatebion a defnyddio ffynonellau a oedd yn bod eisoes, gan gynnwys dangosyddion procsi a ddatblygwyd o amrywiaeth helaeth o ffynonellau ymchwil megis Arolwg Ymwelwyr Prydain Fawr ac amrywiaeth o waith ymchwil ar gostau iechyd meddwl.

2.5. Defnyddiwyd Microsoft PowerBI i gynhyrchu cymylau geiriau yn nodi themâu ac ymadroddion a grybwyllwyd yn aml.


### **Canfyddiadau**

#### *Gwybodaeth am Weithgareddau*

2.6. Yn gyntaf, gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd awyr agored o fewn y flwyddyn ddiwethaf. O'r 563 o ymatebwyr, dywedodd 87 y cant eu bod wedi cyflawni gweithgaredd awyr agored yng Nghymru yn y flwyddyn ddiwethaf. Cafodd y rhai nad oeddent wedi gwneud hynny eu sgrinio allan o weddill yr arolwg.

2.7. Y gweithgareddau a gyflawnwyd yn fwyaf aml gan gyfranogwyr oedd gweithgareddau ar y tir, lle'r oedd 96 y cant o ymatebwyr wedi cymryd rhan ynddynt yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf, fel y dangosir yn Ffigur 3.

**Ffigur 3 – Pa rai o'r gweithgareddau antur awyr agored canlynol ydych chi wedi'u cyflawni yng Nghymru yn y flwyddyn ddiwethaf a pha mor aml?**




Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C2, n=487

- 1.8 Mae gweithgareddau ar y tir yn yr astudiaeth hon yn cynnwys byw yn y gwyllt, cerdded yr arfordir\* (ac eithrio ardaloedd trefol), rhedeg llethrau, rhedeg mynydd, marchogaeth, cerdded iseldir a rhostir, mynydda, beicio mynydd, beicio oddi ar y ffordd, cyfeiriannu, beicio ffordd (ac eithrio ardaloedd trefol), scrambling, sgïo, ac eirafyrddio. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau a gynhwysir yn y gweithgarwch hwn a'r gallu i gyflawni llawer o'r gweithgareddau heb yr angen am offer arbenigol yn dangos bod y categori hwn yn cynnig gweithgareddau hygyrch gydag apêl dorfol eang.
- 1.9 Cafodd yr amrywiaeth o weithgareddau awyr agored sydd ar gael yng Nghymru ei nodi gan amryw o ddarparwyr yn ystod y cyfweiliadau, gyda thueddiad i'r sector fod yn hyrwyddo gweithgareddau cost isel, hygyrch sy'n addas i ddechreuwr ac yn cynnig buddion cymdeithasol ehangach, law yn llaw â'r prif ganolfannau gweithgareddau mawr megis ZipWorld ac Adventure Parc Snowdonia sydd â chanlyniad sicr ac apêl i farchnad ehangach. Ar y llaw arall, y teimlad oedd nad oedd gweithgareddau mwy ymylol, megis chwaraeon modur neu hela neu bysgota yn cael eu hyrwyddo cystal nac yn cael eu cydnabod gan

gyrff diwydiannol fel Cymdeithas Twristiaeth Anturiaeth Cymru (WATO) ac eraill.

- 1.10 Ar y llaw arall, dim ond chwech y cant o ymatebwyr yr arolwg oedd wedi cyflawni gweithgaredd chwaraeon awyr yn y flwyddyn ddiwethaf, a 27 y cant oedd wedi cyflawni gweithgaredd ogofa.
- 1.11 Y lleoliad mwyaf poblogaidd i gyfranogwyr gyflawni eu gweithgaredd mwyaf rheolaidd oedd Gogledd Cymru (40 y cant), a ddilynwyd gan Ganolbarth Cymru (20 y cant), fel y dangosir yn Ffigur 4. Gellir gweld bod 13 y cant o gyfranogwyr yn cyflawni gweithgareddau mewn mwy nag un rhanbarth yn rheolaidd.
- 1.12 Roedd darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored yn nodi bod gan Ogledd a Chanolbarth Cymru sector Gweithgareddau Awyr Agored mwy datblygedig nag yn Ne Cymru, gyda CroesoCymru yn buddsoddi llawer o arian mewn hyrwyddo gweithgareddau atyniadau allweddol megis Zipline ac Adventure Parc Snowdonia. O gymharu, y teimlad oedd bod darparwyr gweithgareddau awyr agored yn ne Cymru yn tueddu i fod yn llai, yn llai datblygedig, a heb fod yn cael eu hyrwyddo cystal.

**Ffigur 4 –Wrth feddwl am y gweithgaredd rydych chi wedi'i wneud amlaf yn y flwyddyn ddiwethaf, yn lle ydych chi fel arfer yn gwneud y gweithgaredd awyr agored hwn yng Nghymru?**




Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C3, n=488

- 1.13 Roedd mwyafrif y cyfranogwyr (79 y cant) yn mynd ati'n annibynnol i drefnu'r gweithgaredd roeddent yn ei gyflawni amlaf, fel y gwelir yn Ffigur 5.
- 1.14 Roedd darparwyr gweithgareddau awyr agored yn amlygu'r symudiad tuag at fwy o bwyslais ar weithgareddau a drefnwyd yn annibynnol a llogi offer ers y pandemig, a oedd yn gysylltiedig â thwf cyfryngau cymdeithasol yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd o bobl sydd â llai o brofiad mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Roedd darparwyr yn codi pryderon y byddai'r tueddiad hwn yn arwain at fwy o risgiau i ddiogelwch ymwelwyr trwy cynnal gweithgareddau heb arweinydd na'r profiad angenrheidiol a chymwyster i gyflawni gweithgareddau'n ddiogel. Roedd un darparwr wedi nodi yn

anecdotaidd gynnydd yn y nifer o achubiaethau mynydd a gyflawnwyd ers y pandemig. Yn ogystal, roedd pryderon y byddai gweithgareddau a drefnwyd yn annibynnol yn llai cydgysylltiedig ac yn fwy tebygol o arwain at fewnlifau mawr o ymwelwyr i ardaloedd llai sydd â chyfleusterau annigonol i wasanaethu galw gan ymwelwyr law yn llaw â galw lleol.

**Ffigur 5 – Pa un o'r canlynol fyddech chi'n ddweud sy'n adlewyrchu orau y gweithgaredd rydych wedi ei wneud amlaf yn y flwyddyn ddiwethaf?**



Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C4, n=489

- 1.15 Roedd y cyfranogwyr a nododd 'arall' yn cynnwys atebion gan gyfranogwyr a deimlai nad oeddent yn perthyn i'r categorïau a restrwyd – er enghraifft y rheini'n cymryd rhan mewn merlota er bod hyn wedi ei gynnwys yn rhestr weithgareddau Twristiaeth Antur Cymru a oedd o fewn cwrdd yr arolwg hwn.
- 1.16 Roedd y rheini a oedd oedd trefnu'n annibynnol i rentu offer yn fwyaf tebygol o wneud hynny trwy gyfleusterau unswydd megis cychod, canŵio, mynydda, cerdded, marchogaeth, beicio, neu glybiau rhedeg.
- 1.17 Roedd y mwyafrif o ddarparwyr gweithgareddau ac offer a restrwyd gan ymatebwyr i'r arolwg wedi eu gwasgaru'n weddol gyson ledled Cymru gan ddibynnu ar natur y gweithgaredd dan sylw a lle'r oedd yn cael ei gynnal. Roedd nifer o weithgareddau'n cael eu hwyluso a'u




trefnu trwy ddarparwyr addysg megis prifysgolion, grwpiau aelodaeth (yn enwedig caiacio, mynydda, ogofa a beicio) a stablau masnachol, ymysg eraill.

### Rhesymau dros gymryd rhan mewn twristiaeth gweithgareddau awyr agored

1.18 Pan ofynnwyd i gyfranogwyr raddio'r rhesymau a bennwyd dros gymryd rhan mewn gweithgareddau antur awyr agored, fel y dangosir yn Ffigur 6, iechyd meddwl a theimlad a lesiant a osodwyd ar y brig, gyda 99 y cant o ymatebwyr yn nodi hyn fel rhywbeth pwysig.

**Ffigur 6 – Rhesymau dros gymryd rhan mewn chwaraeon antur awyr agored – unigolion**




Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C5, n=489

1.19 Gofynnwyd yn yr un modd i fusnesau raddau amrywiol fuddion gweithgareddau awyr agored a nodi pa un sydd bwysicaf iddyn nhw a'u busnes.

1.20 Roedd darparwyr gweithgareddau awyr agored yn nodi amryw o resymau posibl pam y byddai eu cwsmeriaid yn cael eu denu i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yng Nghymru gan gynnwys

teimlad o antur, profi tirweddau naturiol ‘garw a gwyllt’, cymdeithasu, dysgu sgiliau newydd a gwella eu teimlad o lesiant.

**Ffigur 7 – Canfyddiadau busnesau o fuddion i ymwelwyr gweithgareddau awyr agored**



Ffynhonnell: Arolwg Busnes C12, n=43


1.21 Cafodd mynd yn nes at natur ac iechyd meddwl a llesiant eu graddio fel “pwysig iawn” gan y gyfran fwyaf o’r ymatebwyr busnes. Dyma hefyd oedd fwyaf tebygol o gael ei raddio fel y prif reswm mae ymwelwyr yn cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau awyr agored, law yn llaw â datblygu hunan barch a hunan hyder. Fel y dengys y graff, Ffigur 7, y budd a raddiwyd isaf oedd adrenalin/cyffro.

1.22 Amlinellodd ymatebwyr busnes fuddion eraill roedd, yn eu barn nhw, ymwelwyr yn eu hennill wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau awyr agored mae eu busnes yn eu cynnig. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Datblygu sgiliau byw a sgiliau personol
- Addysg ynghylch diwylliant, gwerthoedd a hanes Cymru a’r hyn sy’n ei gwneud yn unigryw
- Datblygu arweinyddiaeth a gwaith tîm
- Profiad wedi ei reoli o risg neu sefyllfaoedd i’w goroesi
- Dywedodd rhai ymatebwyr fod pob dewis cyn bwysiced â’i gilydd.

1.23 Dangosodd 45 y cant o ymatebwyr unigol, fel y gwelir yn Ffigur 8, eu bod wedi teithio'n benodol i gyflawni'r gweithgaredd awyr agored, a dilynwyd hyn gan 43 y cant a ddangosodd eu bod yn gallu cyrraedd y gweithgaredd yn uniongyrchol o'u cartref.


**Ffigur 8 – Y tro diwethaf y gwnaethoch gymryd rhan yn y gweithgaredd yng Nghymru, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich ymweliad orau?**



Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C6, n=489

1.24 Roedd cyfranogwyr yn fwyaf tebygol o aros am ran o ddiwrnod, neu'r rhan fwyaf o ddiwrnod (57 y cant) yn cyflawni'r gweithgaredd, fel y dangosir y Ffigur 9.

**Ffigur 9 – Y tro diwethaf ichi gymryd rhan yn y gweithgaredd yng Nghymru, pa mor hir wnaethoch ei dreulio'n cyflawni'r gweithgaredd?**




Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C6, n=488

## Bodddhad Ymwelwyr

1.25 Dywedodd 94 y cant o gyfranogwyr y byddent yn dod i Gymru eto i gyflawni gweithgaredd awyr agored, fel y dangosir yn Ffigur 10.

**Ffigur 10 – Cwestiynau Bodddhad Ymwelwyr yr Arolwg**



Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C12, C13, C14. N=193, 193, 196

1.26 Yn yr un modd, byddai 94 y cant o ymatebwyr yn argymhell Cymru fel cyrchfan gweithgareddau i ffrind neu berthynas. Llai na hanner yr ymatebwyr fyddai wedi ymweld â Chymru pe na baent yn cymryd rhan mewn gweithgaredd awyr agored.

1.27 Gofynnwyd wedyn i ymatebwyr yr arolwg ddisgrifio'r rhan orau o'r profiad o weithgareddau awyr agored yng Nghymru.

1.28 O'r 147 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fe wnaeth dros hanner grybwyll ansawdd y tirweddau yng Nghymru, gan ddisgrifio'r golygfeydd fel 'unigryw', 'heddychlon', 'hardd' ac yn cyfleu 'rhyddid'.


1.29 Cafodd y canlynol hefyd eu crybwyll gan amryw o ymatebwyr:

- y dewis sydd ar gael
- cyfeillgarwch pobl Cymru

- gwybodaeth hyfforddwyr, ac
- ansawdd y lletygarwch sydd ar gael.

1.30 Mae'r cwmwl geiriau canlynol, Ffigur 11, yn dangos y geiriau a grybwyllwyd fwyaf aml.

**Ffigur 11 – Disgrifiwch y rhan orau o'ch profiad o weithgareddau awyr agored yng Nghymru.**



Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr C15, n=147

1.31 Mae'r dyfyniadau canlynol o'r arolwg cyfranogwyr yn dangos y teimlad a grybwyllwyd gan gyfranogwyr:

- “Mae'n unigryw, ac mae'n hardd, ac mae'n gymharol agos a hygyrch”
- “Gwelsom forloi a dolffiniaid yn y môr, gwelsom bryfed yn y llystyfiant ac adar môr yn hedfan o gwmpas. Roedd gwyllo'r bywyd gwyllt gan wrando ar sŵn y môr yn wych. Roedd yn ffordd o ymlacio, ac ro'n i'n teimlo'n wirioneddol hapus a bodlon.”
- “Y golygfeydd hardd o amgylch pob cornel, a'r tirweddau dramatig sy'n dda i'r enaid!”
- “Tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol gweithgareddau awyr agored y teimlaf y gallaf gysylltu â nhw.”

- “Mae'r amgylchedd mor amrywiol fel ei bod yn ardal sydd â phopeth. O ddringo yn Sir Benfro i gerdded yn Aberhonddu. A phadlo ar afon Conwy.”

1.32 Gofynnwyd i ymatebwyr wedyn a oedd unrhyw beth ynghylch eu profiad o weithgareddau awyr agored yng Nghymru y gellid bod wedi ei wella. Caiff ymatebion i'r cwestiwn hwn eu crynhoi yn y cwmwl geiriau yn Ffigur 12 isod.

**Ffigur 12 – A oes unrhyw beth ynghylch eich profiad o weithgareddau awyr agored yng Nghymru y gellid bod wedi ei wella?**




Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C16, n=111

- 1.33 Y pedair thema barhaus a grybwyllwyd gan gyfranogwyr oedd ‘parcio’, ‘mynediad’, ‘trafnidiaeth gyhoeddus’ a ‘tywydd’.
- 1.34 Cafodd diffyg darpariaeth ar gyfer niferoedd mawr o geir ei restru gan 15 o ymatebwyr, a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â darpariaeth wael o drafnidiaeth gyhoeddus i ardaloedd poblogaidd.
- 1.35 Teimlai rhai cyfranogwyr fod anghysondeb rhwng cyflawni gweithgaredd yn yr awyr agored a'r effeithiau carbon o fynd mewn car i wneud hynny, gyda lleoliadau unig yn Eryri yn cael eu rhoi fel enghreifftiau. Yn yr un modd, roedd trafnidiaeth yn cael ei restru fel rhwystr rhag mynediad i grwpiau dan anfantais gyrraedd gweithgareddau awyr agored.

- 1.36 Dywedodd rhai cyfranogwyr yr hoffent gael y gallu i ddod ag offer gweithgareddau awyr agored ar drafnidiaeth gyhoeddus, ac y gellid gwella'r ddarpariaeth ar gyfer hyn. Crybwyllwyd enghreifftiau o feicio mynydd yn yr Alpau, lle mae hyn yn gyffredin.
- 1.37 Roedd prinder cyfleusterau megis toiledau cyhoeddus yn cael ei restru fel diffyg mewn ardaloedd poblogaidd, yn ogystal â chyfleusterau ymwelwyr nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n iawn, ac y gellid eu gwella. Cafodd Canolfan Cwm Idwal ym Mharc Cenedlaethol Eryri a gafodd ei adnewyddu'n ddiweddar ei restru fel enghraifft o arfer dda.
- 1.38 Er mwyn archwilio ymhellach enw da Cymru fel cyrchfan gweithgareddau awyr agored, gofynnwyd i fusnesau osod Cymru mewn trefn ar dabl rhyngwladol o gyrchfannau gweithgareddau awyr agored. Y dewis mwyaf poblogaidd, a ddarlunir yn Ffigur 13, oedd Cymru yn y 10 cyrchfan uchaf, a raddiwyd gan 48 y cant o fusnesau, a ddilynwyd gan 45 y cant o fusnesau a osododd Cymru yng nghanol y tabl cynghrair. Roedd y graddau hyn yn gyffredinol ychydig yn is nag yn arolwg 2014.

**Ffigur 13 – Pe bai tabl cynghrair ryngwladol o gyrchfannau gweithgareddau awyr agored, lle fyddai'n Cymru'n arno?**



Ffynhonnell: Arolwg Busnes C24, n=42



1.39 Rhoddwyd sawl rheswm pam fod busnesau'n teimlo fod safle Cymru yng nghanol y tabl, a pham eu bod yn gosod Cymru uwchlaw neu islaw cyrchfannau gweithgareddau awyr agored eraill. Roedd y rhain yn cynnwys datganiadau fel:


- “Mae gan Gymru fynediad at rai o'r lleoliadau awyr agored gorau o bobl math, o ddringo clogwyni yn Sir Benfro i'r syrffio gorau yn Nhraeth Porth Mawr a Rhosili.”
- “Mae'n lle da yn gyffredinol, ond mae'r enw fel lle glawog yn cadw rhai pobl draw, yn enwedig o fis Tachwedd hyd fis Ebrill. Yn America ac Awstralia, nid yw Cymru'n cael ei gweld fel lle ar wahân i Loegr.”
- “Mae gan Gymru amgylchedd naturiol rhyfeddol sy'n cefnogi amrywiaeth anferthol o weithgareddau awyr agored; mae'n lle croesawgar iawn i ymwelwyr; ac mae ganddi rwydwaith gwych o gefnogaeth o fewn y diwydiant OND gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gefnogi ee mynediad at lecynnau gwyrdd a glas a datblygu gweithlu gweithgareddau awyr agored.”
- “Dw i'n tueddu tuag at ganol y tabl, oherwydd hygyrchedd, cysylltiadau trafniadaeth ac ardaloedd gor-boblogaidd. Nid ydym yn gwarchod a pharchu ein cyrchfannau gweithgareddau awyr agored cystal ag y gallem.”
- “Mae gennym bopeth o ran lleoliadau gweithgareddau ond cawn ein llesteirio gan y defnydd cyson o rai lleoliadau gan yr un bobl/darparwyr/cwsmeriaid. Byddai cyd-drafod â threfnwyr digwyddiadau yn gwella pethau.”
- “Gallai'r 10 uchaf fod ychydig yn uchel, ond yn sicr nid 'Canol y Tabl'. Mewn gwirionedd dim ond graddfa'r nodweddion naturiol sy'n dioddef mewn cymhariaeth – mae gan Gymru lawer i'w gynnig ond mae'r Alpau, Andes, Himalayas, Rockies, yr Alban etc yn ardaloedd gwyllt anferthol o gymharu.”

1.40 Teimlai mwyafrif y busnesau (62 y cant) fod yr enw da sydd gan Gymru fel cyrchfan gweithgareddau awyr agored wedi cynyddu, fel y dangosir yn Ffigur 14. Teimlai rhai ymatebwyr fod arosiadau o fewn



Prydain ('staycations') yng ngoleuni cyfyngiadau teithio cysylltiedig â Covid-19 yn 2020 a 2021 yn golygu bod mwy o bobl yn darganfod lleoedd yn nes i'w cartref.

**Ffigur 14 – Dros y tair blynedd ddiwethaf a yw enw da Cymru fel cyrchfan gweithgareddau awyr agored wedi cynyddu, lleihau, neu aros yr un fath?**



Ffynhonnell: Arolwg Busnes C25, n=42

- 1.41 Yn ogystal, crybwyllwyd dylanwad cyfryngau cymdeithasol, gyda “dylanwadwyr” yn rhannu lluniau o gyrchfannau gweithgareddau awyr agored yng Nghymru, gan arwain at dynnu sylw cynulleidfa ehangach o leoedd i fynd iddynt yng Nghymru.
- 1.42 Roedd effaith marchnata yn cael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol a negyddol. Crybwyllwyd argraffiadau negyddol y negeseuon “Mae Cymru ar Gau” a gafodd eu rhannu ynghylch y cyfyngiadau (gwahanol yn aml) ar deithio rhwng Cymru a Lloegr yn ystod cyfnodau clo Covid-19. Roedd hyn yn ogystal â'r “dreth twristiaeth”, a oedd yn cyfeirio ar yr ardoll ymwelwyr arfaethedig<sup>12</sup> y mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori arni ar hyn o bryd.
- 1.43 Roedd sylwadau ychwanegol yn cynnwys y sylw fod darpariaeth awdurdodau addysg lleol yn crebachu, tra bod y sector preifat yn cynyddu. Mae profiadau llawn adrenalín fel Zip World ac Adventure

<sup>12</sup> [Cynigion i gyflwyno Ardoll Ymwelwyr i Gymru](#)

Parc Snowdonia yn ychwanegu at y canfyddiad o Gymru fel cyrchfan gweithgareddau antur.

## Effeithiau economaidd twristiaeth gweithgareddau awyr agored

### Dull

- 1.44 Mae'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer amcangyfrif effeithiau economaidd y sector gweithgareddau awyr agored yn seiliedig ar Fethodoleg Llyfr Gwyrdd Trysorlys y Deyrnas Unedig. Mae'n dilyn y dull hwn:



- 1.45 Yn yr astudiaeth hon mae'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd fel a ganlyn:

- Daw nifer yr ymweliadau dydd o [Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr 2021](#). Mae hyn yn rhannu data ymwelwyr yn dripiâu byr o dros dair awr a thripiâu diwrnod ac mae'n rhoi data ar gyfer y rheini a "gymerodd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau hamdden awyr agore." Nid oedd data ar gael ar gyfer y cyfnod mis Ionawr i fis Mawrth 2021 ac felly mae'r ffigurau hyn yn dan-amcangyfrif seiliedig ar ddata naw mis.
- Cymerwyd y nifer o ymwelwyr sy'n aros o [Arolwg Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain](#)<sup>13</sup>. Mae hwn yn rhoi data ar y gyfran o ymwelwyr sy'n dod i Gymru ar wyliau ond nid yw'n dadansoddi ymwelwyr yn ôl eu dewis o brif weithgarwch.
- Data ar gyfer ymwelwyr tramor o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol ar gyfer 2021. Gwelodd hyn gwmp o 88 y cant mewn ymwelwyr tramor a chofnodwyd cyfanswm yr ymweliadau ar 28,000.

- Mae data ar gyfer gwariant cyfartalog i bob ymweliad wedi cael ei dynnu o'r arolwg cyfranogwyr.

### Gwariant ymwelwyr

1.46 Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg cyfranogwyr feddwl ynghylch faint oeddent yn ei wario y pen y diwrnod, y tro diwethaf iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yng Nghymru. Dengys canlyniadau fod, yn gyffredinol, y gwariant cyfartalog ar y gweithgaredd ei hun yn £29.00 y pen, gyda gwariant cysylltiedig ehangach o £31.62 (Tabl 4). Cafodd y data ei ddadansoddi wedyn i amcangyfrif y gwariant yn ôl tri chategori o ymwelydd yn unol â chategoriâu Arolwg Ymwelwyr Prydain o'r rheini sy'n aros tair awr neu fwy, y rheini sy'n aros am ddiwrnod llawn a'r rheini sy'n aros dros o leiaf un noson. Gwnaed yr amcangyfrif trwy ddefnyddio "Dw i'n byw o fewn pellter teithio yng Nghymru" fel procsi ar gyfer tair awr neu fwy, "Dw i'n byw o fewn pellter teithio o fewn Lloegr" fel procsi ar gyfer diwrnod llawn a'r rheini sy'n rhestru ffurfiau o lety ar gyfer y grwp o arhoswyr dros nos. Gwiriwyd synnwyr y canlyniadau wedyn trwy groesgyfeirio ffigurau gwariant gyferbyn â'r amser y dywedodd pob ymatebydd eu bod wedi ei dreulio'r tro diwethaf iddynt gyflawni gweithgaredd awyr agored, ac roedd y canlyniadau yn gyffredinol gymaradwy.

**Tabl 4 –Gwariant cyfartalog y diwrnod ar gyfer gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau twristiaeth gweithgareddau awyr agored**


Categori	Trip Byr £	Trip Diwrnod £	Aros £	Gwariant cyfartalog £
Cymryd rhan yn y gweithgaredd	18.70	26.55	51.15	29.00
Gwariant arall ac eithrio llety	12.76	37.68	69.47	31.62
Llety			39.51	60.62
Cyfanswm gwariant dyddiol, £	31.46	64.23	160.13	

Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C8, n=486

### Aros yng Nghymru

1.47 Roedd y rheini a ymatebodd i'r arolwg, a oedd yn aros o leiaf un noson yng Nghymru yn fwyaf tebygol o fod yn aros mewn llety arlwyo neu wersylla (naw y cant yr un), er bod y categori "arall" (faniau gweryslla neu ganolfannau mynydd / cytiau clybiau) hefyd yn sylweddol ar saith y cant.


**Ffigur 15 – Fel rhan o'ch trip i wneud y gweithgaredd awyr agored, lle wnaethoch chi aros?**



Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C9, n=489

1.48 Roedd cyfartaledd y gwariant nosol ymysg y rheini a ddywedodd iddynt aros yng Nghymru yn £39.51, er y dywedodd y grŵp mwyaf o bobl iddynt wario llai na £20 y noson ar gyfartaledd.

### Ffigur 16 – Faint wnaethoch chi wario ar eich llety yn unig yng Nghymru, fesul person, fesul nos?




Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C10, n=194

- 1.49 Roedd yr ymatebwyr hynny i'r arolwg cyfranogwyr a oedd wedi aros yng Nghymru yn fwyaf tebygol o fod wedi aros am benwythnos / dwy noson (46 y cant), a dilynwyd hyn gan dair i chwe noson (23 y cant), fel y nodir yn Ffigur 17.
- 1.50 Hyd cyfartalog arhosiad ymwelwyr oedd 3.7 noson, sy'n cymharu'n uniongyrchol â chanlyniadau Arolwg Twristiaeth diweddaraf Prydain (2021)<sup>14</sup>.

<sup>14</sup> [Ystadegau Twristiaeth Ddomestig Prydain Fawr \(tripiau dros nos\)](#)

**Ffigur 17 – Sawl noson wnaethoch chi aros yng Nghymru?**



Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C11, n=185

1.51 O ran pa mor hir oedd ymwelwyr yn debygol o aros mewn gwahanol fathau o lety, roedd yr arhosiad cyfartalog isaf mewn llety hunan-ddarpar, sef 4.8 noson, a dilynwyd hyn gan ffriniau/teulu ac “arall”. Crynhoir hyn yn Nhabl 5.

**Tabl 5 – Hyd arhosiad cyfranogwyr yng Nghymru yn ôl math o lety**

	Un noson	Penwythnos / dwy noson	Tair i chwe noson	Un wythnos i 10 noson	10 noson +	Cyffartaledd Arhosiad (nosweithiau)
Gwersylla	14 %	45 %	19 %	2 %	19 %	4.0
Hostel / byncws	4 %	75 %	17 %	4 %	0 %	2.6
Hunan-ddarpar	7 %	20 %	47 %	27 %	0 %	4.8
Gwesty / Gwely a Brecwast / Tafarn	20 %	44 %	22 %	13 %	0 %	3.2
Gyda ffrindiau / teulu	0 %	43 %	43 %	0 %	14 %	4.2
Arall (nodwch):	3 %	48 %	29 %	6 %	13 %	4.1
Cyfanswm y golfn	11 %	48 %	25 %	9 %	8 %	3.7

Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C9 vs C11, n=164

1.52 Fel y gellid disgwyl, roedd y gwariant cyfartalog uchaf ar lety fesul pob ymatebydd i'r arolwg mewn llety a wasanaethir, fel y dangosir yn

Nhabl 6, ar £85.44 y noson, a ddilynwyd gan hunan-ddarpar ar £70.33.

**Tabl 6 – Gwariant ar lety fesul noson yn ôl math o lety**

Llety	Gwariant cyfartalog (£)
Gwersylla	21.55
Hostel / byncws	30.42
Hunan-ddarpar	70.33
Gwesty / Gwely a Brecwast / Tafarn	85.44
Gyda ffrindiau / teulu	0.00
Arall	19.24
Cyfanswm y golofn	39.51

Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C9 vs C10, n=194

1.53 Gan ystyried hyd yr arhosiad a'r math o lety, roedd gwariant cyfartalog mwyaf y trip fesul person mewn llety hunan-ddarpar, ar £339.94, a ddilynwyd gan lety arlwy, ar £275.32.

1.54 Mae hyn yn awgrymu gwariant cyfartalog ar lety trip ar draws pob hyd arhosiad a mathau o lety o £146.36, fel y dangosir yn Nhabl 7. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl dwristiaid i Gymru, a adroddir yn Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr fel £198 y trip. Gellid disgwyl hyn, o gofio graddau'r defnydd o wersylla a byncws yn y sector.

**Tabl 7 – Gwariant cyfartalog ar y trip cyfan, yn ôl math o lety**

	Cyfartaledd £ / noson	Arhosiad cyfartalog	Gwariant cyfartalog £
Gwersylla	21.55	4.0	86.45
Hostel / byncws	30.42	2.6	80.48
Hunan-ddarpar	70.33	4.8	339.94
Gwestyn / Gwely a Brecwast / Tafarn	85.44	3.2	275.32
Gyda ffrindiau / teulu	0.00	4.2	0.00
Arall (nodwch):	19.24	4.1	79.76
Cyfartaledd y golofn	39.51	3.7	146.36

Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C8 vs C9 vs C10, n=164

- 1.55 Fel y trafodwyd yn gynharach, dangosodd yr astudiaeth cyfranogwyr mai'r dewisiadau aros mwyaf cyffredin i'r ymwelwyr hynny a oedd yn aros dros nos oedd gwestyau, gwely a brecwast, a thafarndai, a ddilynwyd yn agos gan wersylla. Fel y gellir gweld o Ffigur 14 (uchod), mae'r gwariant cyfartalog y noson, fesul person, yn sylweddol fwy gan y rheini sy'n aros mewn gwestyau a lleoedd gwely a brecwast (£51-£200) na'r rhai sy'n gweryslla (£20-£50), ond fawr mwy na'r rhai mewn llety hunan-ddarpar, lle'r oedd arosiadau hirach yn cynhyrchu'r gwariant cyfartalog mwyaf.
- 1.56 Er bod archwilio'r hyn sy'n ysgogi dewis un math o lety yn hytrach na'r llall y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon, gellid cysylltu amllder y dewisiadau o lety cost-uwch ag oedran cyfartalog mwyaf cyffredin proffil yr ymwelwyr, sydd rhwng 49-65 oed. Gellid dadlau bod y grŵp oedran hwn yn ceisio lefelau uwch o gysur a hygyrchedd ac felly'n fwy tueddol o dalu prisiau uwch y gael y buddion hynny.
- 1.57 Roedd darparwyr gweithgareddau awyr agored a gafodd eu cyfweld yn nodi her neilltuol wrth sicrhau dewisiadau llety o ansawdd uchel ar raddfa sylweddol, yn enwedig mewn cymunedau lleol, i letya cwsmeriaid uwch eu gwerth ac uchel eu gwariant. O ganlyniad, mae darparwyr yn aml yn troi at gydweithio â darparwyr cost-isel megis hostelau a byncws fferm a all gyfyngu ar apêl gweithgareddau awyr agored ymysg cleientiaid sy'n llai sensitif o ran gyllideb a gall hefyd gyfyngu ar wariant y pen ymwelwyr yn yr ardal.

#### *Ystadegau Ymwelwyr gan Fusnesau*

- 1.58 Gofynnwyd i fusnesau ddangos y nifer o ymwelwyr maent wedi eu derbyn yn y 12 mis diwethaf, a'r nifer canolrif ar gyfer hyn oedd 400. Fodd bynnag, fel y trafodir isod, roedd amrywiaeth helaeth o atebion sy'n adlewyrchu amrywiaeth ac ystod eang busnesau twristiaeth yng Nghymru.
- 1.59 Roedd darparwyr yn fwyaf tebygol o ddarparu ar gyfer ymwelwyr o fewn y Deyrnas Unedig, y tu allan i Gymru (63 y cant ar gyfartaledd), a ddilynwyd gan 25 y cant o Gymru a saith y cant o Ewrop. Mae Tabl



8 yn amlinellu o le deuai'r rhan fwyaf o ymwelwyr i'r busnesau a gymerodd ran.


**Tabl 8 – Tarddiadau ymwelwyr i Gymru**

Ymweld o:	<10%	10-25%	25-50%	50-75%	75%+
Cymru	28%	38%	21%	3%	10%
Y Deyrnas Unedig (ac eithrio Cymru)	0	17%	10%	29%	45%
Ewrop (ac eithrio'r Deyrnas Unedig)	88%	9%	0	3%	0
Y tu allan i Ewrop	97%	3%	0	0	0

Ffynhonnell: Arolwg Busnesau C7, N=42

1.60 Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg ddangos pa gyfran o'u hymwelwyr sy'n ymwelwyr am ddiwrnod neu'n aros dros nos. Amlinellir yr wybodaeth hon yn Ffigur 28 isod.

**Ffigur 18 – O'ch profiad chi, pa gyfran o'ch ymwelwyr sy'n ymwelwyr am ddiwrnod, ac o'r tu allan i'r rhanbarth ac yn talu am lety dros nos?**



Ffynhonnell: Arolwg Busnesau C10, n=43

1.61 Mae'r gyfran fwyaf o ymwelwyr â'r busnesau sy'n ymateb yn dewis aros mewn llety dros nos.

#### *Nifer o ymweliadau*

1.62 Yn ôl Arolwg Ymwelwyr Prydain Fawr, roedd:

- 14.46m o dripiâu diwrnod hamdden i Gymru a oedd yn fwy na thair awr o hyd, gyda phrif weithgaredd o gymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau hamdden awyr agored (11.6 y cant o'r cyfanswm).
- 4.0m o dripiâu diwrnod-llawn yn canolbwyntio ar chwaraeon a hamdden awyr agored (10.4 y cant o'r cyfanswm).

1.63 Mae'r arolwg hefyd yn dangos cyfanswm o 21.38m o nosweithiau ymwelwyr domestig o dwristiaeth gwyliau, fel y dangosir yn Nhabl 9, er nad yw'n gwahaniaethu rhwng prif weithgareddau ymwelwyr sy'n aros. Yn ogystal, mae Arolwg Trafnidiaeth Teithwyr y Deyrnas Unedig yn awgrymu o leiaf 28,000 o ymwelwyr tramor i ddibenion gwyliau, gan roi cyfanswm o 21.41m i nosweithiau ymwelwyr dros nos. Mae cymryd cyfartaledd ar gyfer y gyfran o dwristiaid gweithgareddau awyr agored o'r ymwelwyr arosiadau byr a thripiâu diwrnod yn rhoi inni 11 y cant fel amcangyfrif rhesymol ar gyfer y gyfran o ymwelwyr aros sy'n cyflawni gweithgareddau awyr agored.

**Tabl 9 – Nifer o Ymweliadau o Arolwg Ymwelwyr Prydain Fawr**

Arolwg Ymwelwyr Prydain Fawr	Pawb	TGAA	TGAA %
3+ awr: Pobl (m)	125.1	14.5	11.6%
Tripiâu diwrnod: Pobl (m)	38.4	4.0	10.4%
Nosweithiau Aros (m)	21.4	2.35	11.0%
Cyfan	184.9	20.8	

Ffynhonnell: GBVS 2021/Miller Research

1.64 Mae lluosî'r gwariant dyddiol o Dabl 9 â'r niferoedd ymwelwyr uchod ar gyfer pob categori yn rhoi'r ffigurau canlynol, a ddangosir yn Nhabl 10, ar gyfer cyfanswm gwerth yr economi gweithgareddau awyr agored yn nhermau gwariant defnyddwyr. Daw hyn i £1.6bn yn flynyddol, gan gynrychioli'r budd economaidd gros i Gymru.

**Tabl 10 – Cyfanswm Gwariant Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored (Effaith Gros)**

	3+ Awr	Tripiâu Diwrnod	Aros

Gwariant / diwrnod (Arolwg cyfranogwyr), £	31.45	64.23	160.13
Niferoedd (TGAA o amcangyfrif GBVS/ arolwg	14.50	4.00	5.56
Cyfanswm Gwariant (£m)	456.03	256.92	890.96
Cyfanswm Terfynol (£m)			1,603.91

Ffynhonnell: GBVS 2021, Arolwg Cyfranogwyr

### *Caniatáu ar gyfer effeithiau difuddiant a dadleoli*

- 1.65 Er mwyn cyfrifo'r buddion net i Gymru, mae canllawiau'r Llyfr Gwyrdd yn awgrymu y dylid anwybyddu'r cyfraniad domestig fel effaith dadleoli. Hynny yw, byddai'r arian a gaiff ei wario gan ymwelwyr Cymreig yn debygol o gael ei wario ar nwyddau a gwasanaethau eraill yng Nghymru pe baent yn dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.
- 1.66 Felly mae'r cyfrifiadau o effaith economaidd wedi cael eu seilio ar amcangyfrifon o niferoedd o ymwelwyr o'r tu allan i Gymru, gan ddefnyddio'r procsi tripiâu diwrnod a ychwanegir at y rheini sy'n aros yng Nghymru. Mae hyn yn awgrymu buddsoddiad net o dwristiaeth gweithgareddau awyr agored o (£256.92m + £890.96m) = £1,147.88m.
- 1.67 Mae difuddiant yn digwydd pan fyddai unigolion wedi ymweld â Chymru prun bynnag, hyd yn oed pe na baent yn cyflawni gweithgareddau awyr agored. Mae hyn wedi cael ei ystyried eisoes yn y cyfrifiad o niferoedd ymwelwyr ac felly gellir ei anwybyddu.

### *Gweithredu lluosyddion*

- 1.68 Gan ddefnyddio dangosyddion a ddatblygwyd ar gyfer astudiaeth 2014 o ddata uniongyrchol, y model Mewnbynnau Allbynnau Cymru a'r Cyfrifon Lloeren Twristiaeth, mae'r lluosydd allbynnau cyffredinol ar gyfer effaith uniongyrchol gwariant twristiaeth gweithgareddau awyr agored yn 1.41, gan roi cyfanswm o £1,619m. Caiff cyflogaeth a gefnogwyd ei gyfrifo fel un swydd ychwanegol i bob £55,000 o incwm

– gan roi effaith uniongyrchol ar gyflogaeth o gefnogi 29,428 o swyddi yn yr economi.


- 1.69 Mae'r gwariant uniongyrchol gan dwristiaid yn cael effaith ychwanegol gan fod derbynwyr y gwariant hwnnw yn ailgylchu arian yn y gymuned, gan roi lluosydd cyffredinol o 1.59. Mae hyn yn awgrymu cyfanswm effaith economaidd net o  $(1.59 \times \text{£}1,148\text{m}) = \text{£}1,825\text{m}$ . Mae cyfanswm nifer y swyddi a gefnogir (gan ddefnyddio'r lluosydd uchod) yn 31,278, neu 21 y cant o gyfanswm cyflogaeth mewn twristiaeth yng Nghymru.
- 1.70 Dylid cymedroli hyn wedyn ar gyfer tuedd optimistiaeth – sef ymatebwyr yn gor-amcangyfrif eu gwariant wrth lenwi'r arolwg. Rydym wedi amcangyfrif ar gyfer hyn fel pump y cant, sy'n unol â chanllawiau Trysorlys y Deyrnas Unedig. Bydd y ffigur optimistiaeth hwn yn cael ei wrhbwysu'n ddigonol gan absenoldeb set ddata 12 mis llawn ar gyfer niferoedd ymwelwyr, ac felly gellir ei anwybyddu'n ddiogel.

## **Effaith economaidd busnesau twristiaeth gweithgareddau awyr agored yng Nghymru**

### *Gwariant Busnesau*

- 1.71 Gofynnwyd i fusnesau amcangyfrif eu trosiant blynyddol ac roedd amrywiaeth helaeth o ymatebion, fel y gellid disgwyl, o lai na £10,000 y flwyddyn i rhwng £1m a £5m y flwyddyn, fel y dangoswyd yn Ffigur 19.


### Ffigur 19 – Beth yw eich trosiant blynyddol?



Ffynhonnell: Arolwg Busnesu C19, n=42

- 1.72 Gallai hyn adlewyrchu'r bwlch rhwng busnesau bach, ffordd o fyw, ar un pen y raddau, a sefydliadau masnachol mawr neu sector cyhoeddus ar y llall. Yn gyffredinol, roedd y trosiant cyfartalog yn £420,813, er na fyddai hyn yn cynrychioli'r busnes cyfartalog yng Nghymru.
- 1.73 Roedd yr elw cyfartalog a adroddwyd yn 33 y cant ar draws yr holl ymatebwyr, fel y dangosir yn Ffigur 20, er mai'r rheini a oedd â throsiant rhwng £10,000 a £25,000 oedd yn honni gwneud yr elw mwyaf – o bosibl oherwydd gorbenion / costau mewnbynnu isel.


**Ffigur 20 – Beth fydddech chi'n ei ddweud yw canran gyfartalog eich elw?**



Ffynhonnell: Arolwg Busnesau C19, n=42

- 1.74 Dengys data o'r arolwg ymatebwyr fod 10.7 y cant o ymwelwyr wedi defnyddio sefydliadau darparwyr gweithgareddau. Mae hyn yn awgrymu cyfanswm o 2.08m o ddyddiau ymwelwyr gyda darparwyr.
- 1.75 Ar y sail hon mae gwariant cyfartalog o £70.22 (a gymerwyr o'r arolwg ymatebwyr) yn darparu incwm o £146m i'r sector yn flynyddol, a grynhoir yn Nhabl 11.
- 1.76 Byddai hyn yn cynhyrchu cyfanswm elw oddeutu £48m i'r sector, gyda chostau mewnbynnau o £98m.
- 1.77 Gofynnwyd i fusnesau amcangyfrif y gyfran o'i gwariant busnes blynyddol sy'n mynd i gyflenwyr yn yr ardal leol, o fewn Cymru a'r tu allan i Gymru. Roedd y gwariant cyfartalog yn yr ardal leol yn 38 y cant, fel y dangosir yn Ffigur 21. Byddai hyn yn cyfrannu buddsoddiad uniongyrchol o £37m i gymunedau lleol lle mae'r darparwyr wedi eu lleol (yn aml mewn cymunedau gwledig ac arfordirol ymylol). 36.2m) gan roi cyfanswm gwariant o £73.4m yng Nghymru ar gostau busnes. Cafodd 25 y cant pellach, neu £24.5m ei wario y tu allan i Gymru.

**Ffigur 21 – Pa gyfran o wariant blynyddol eich busnes a amcangyfrifwch sydd gyda chyflenwyr yn eich ardal leol, Cymru a'r tu allan i Gymru?**



Ffynhonnell: Arolwg Busnesau C18, n=41

**Tabl 11 – Cyfanswm incwm a gynhrychir gan fusnesau**

Newidyn	Cyfanswm
Nifer o ddyddiau ymwelwyr yn defnyddio darparwyr (m)	2.08
Gwariant blynyddol ar weithgareddau'n cynhyrchu £m	146.06
Elw a gynhrychir ar weithgareddau (cyfradd gyfartalog o 33%) £m	48.2
Felly costau mewnbynau o £m (£146.06 -£48.2)	97.86
Gwariant yn yr ardal leol @38% £m	37.2
Gwariant yn rhywle arall yng Nghymru @37% £m	36.2
Cyfanswm gwariant yng Nghymru £m	73.4
Gwariant yn y Deyrnas Unedig y tu allan i Gymru @25% £m	24.5

Ffynhonnell: Miller Research / Amryw

- 1.78 Awgryma hyn yr hawlir bod lefel uchel o gadw gwariant yng Nghymru (75 y cant), gan wneud cyfraniad sylweddol i'r economi sylfaenol.
- 1.79 O'r gwariant hwn, bydd buddsoddiad canlyniadol pellach mewn cymunedau lleol a ledled Cymru, a bydd yr arian hwnnw'n cael ei wario gan gyflenwyr. Yn ogystal, roedd busnesau wedi cadw elw o £48.2m, sy'n debygol o gael ei wario mewn cyfrannau tebyg mewn cymunedau lleol, yng Nghymru ac mewn lleoedd eraill.

**Tabl 12 – Cyfanswm effeithiau busnes**

Newidyn	Yn y Gymuned £m	Rhywle arall yng Nghymru £m	Rhywle arall yn y Deyrnas Unedig £m	Cyfanswm £m
Effeithiau uniongyrchol cyflenwyr	37.19	36.21	24.46	97.86
Effeithiau eilaidd cyflenwyr	59.13	57.57	38.90	155.60
Elw a gadwyd	18.32	17.83	18.32	64.3
Effaith eilaidd gwariant elw	38.8	37.8	12.05	49.85
Cyfanswm effaith busnes	97.93	95.37	50.95	244.25

Ffynhonnell: Miller Research / Amryw

1.80 Mae defnyddio'r lluosydd 1.57 fel o'r blaen yn rhoi ffigur cyfanswm effaith economaidd a gynhyrchir gan fusnesau twristiaeth gweithgareddau awyr agored o £244.25m yn flynyddol, gyda £98m ohono yn cronni i gymunedau lleol a £193m yn cronni i Gymru. Yr effaith economaidd yn yr achos hwn yw arian ychwanegol yn cylchredeg mewn cymunedau yng Nghymru na fyddai'n bresennol yn absenoldeb y sector gweithgareddau awyr agored.

### **Gwerth Cymdeithasol Gweithgareddau Awyr Agored**

1.81 Ffordd arall o fesur buddion twristiaeth gweithgareddau awyr agored yw ystyried gwerth cymdeithasol. Mae gwerth cymdeithasol yn cyfeirio at yr effaith gadarnhaol mae gweithgaredd, rhaglen, neu bolisi yn ei chael ar gymdeithas a'r gymuned yn ehangach. Gall gynnwys amrywiaeth o fuddion anariannol sy'n gyfrannu at lesiant unigolion a



chymdeithas, gan gynnwys buddion cymdeithasol ac economaidd, gwella llesiant, a chyfiawnder cymdeithasol.

1.82 Amcangyfrifiwyd gwerth cymdeithasol twristiaeth gweithgareddau awyr agored trwy amrywiaeth o wahanol dulliau, i adlewyrchu'r dulliau o fesur gwerth cymdeithasol sydd gael fel y'u nodir yng nghanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys y Deyrnas Unedig<sup>15</sup>. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dulliau prisio dibynnol (*contingent valuation – CV*). Mae dwy ffurf o'r rhain: parodrwydd i dalu a pharodrwydd i dderbyn. Yn yr achos hwn, defnyddiwyd dri dewis yn yr holiadur cyfranogwyr:
  - Yn gyntaf, gofynnwyd i ymatebwyr faint fyddent yn fodlon ei dalu am ffi trwydded flynyddol i gymryd rhan yn eu hoff weithgaredd awyr agored.
  - Yn ail, gofynnwyd i ymatebwyr faint fyddai angen iddynt gael eu talu i dderbyn peidio â chymryd rhan yn eu hoff weithgaredd awyr agored am 12 mis.
  - Yn drydydd, gofynnwyd i ymateb roi gwerth ar ddiwrnod o'r gweithgaredd o gymharu ag amrywiaeth o ddewisiadau eraill megis pâr o esgidiau rhedeg, pryd o fwyd yn y dafarn leol neu wyliau tramor. Dynodwyd swm ariannol cyfwerth i'r rhain wedyn i benderfynu ar werth cymdeithasol cyffredinol.

1.83 Cydnabyddir, fodd bynnag, bod heriau ynghlwm â'r dulliau prisio dibynnol hyn, ac mae mwy o bwyslais wedi cael ei roi yn ddiweddar ar brisio llesiant (gan ddefnyddio arolygon cynt ac wedyn i fodelu gwelliannau mewn hunan-ganfyddiad o lesiant), neu enillion cymdeithasol ar fodolau seiliedig ar fuddsoddiad sy'n edrych ar werth economaidd cynhyrchion nad ydynt yn rhai marchnad yn nhermau

---

15

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/191522/Economic\\_valuation\\_with\\_stated\\_preference\\_techniques.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/191522/Economic_valuation_with_stated_preference_techniques.pdf)

arbedion costau i gymdeithas trwy well iechyd corfforol neu feddyliol, lleihau troseddu neu welliannau amgylcheddol.

- 1.84 Felly, mae'r cyfrifiadau 'tri-CV' wedi cael eu hychwanegu at yr adroddiad (Atodiad B), tra bod yr adran nesaf yn canolbwyntio ar fuddion iechyd meddwl sy'n codi o weithgareddau awyr agored, gan amlygu iechyd meddwl a llesiant fel ffactorau sy'n symbylu cymryd rhan mewn twristiaeth gweithgareddau awyr agored.

#### *Effeithiau ar iechyd meddwl*

- 1.85 Un o nodweddion diddorol canlyniadau'r arolwg oedd y pwyslais a nodwyd gan ymatebwyr ar iechyd meddwl a theimlad o lesiant fel y prif symbyliad dros gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.
- 1.86 Dengys ymchwil y gellir defnyddio gweithgarwch corfforol wrth rwystro ac wrth drin iselder a gellir ei ddefnyddio hefyd fel rhan o therapi gyfunol gyda meddyginiaeth a/neu therapi seicolegol<sup>16</sup>. O ran atal, mae tystiolaeth greth yn dangos lleihad o 20-30 y cant mewn iselder ymysg oedolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn ddyddiol<sup>17</sup>. Mae gan ymarfer corff fanteision posibl dros wrth-iselyddion gyda llai o sgil-ffeithiau, ac efallai llai o deimlad o gywilydd cymdeithasol ynghlwm wrtho fel triniaeth addas o gymharu â chwrsela neu seicotherapi.
- 1.87 Mae tystiolaeth gyfyngedig sy'n profi y gall gweithgarwch corfforol beri lleihad o 20-30 y cant<sup>18</sup> mewn lefelau o orbryder a gofid mewn pobl sydd â symptomau gwan, ac y gall fod yn ddefnyddio hefyd wrth drin neu atal gorbryder clinigol. Mae gweithgarwch corfforol ar gael i bawb, heb fawr o gostau ynglŷn ag ef, ac mae'n ddull grymuso sy'n gallu helpu hunan-reolaeth.

---

<sup>16</sup> [London School of Economics – Mental Health Problems cost UK economy at least £118 billion a year](#) London School of Economics – Mental Health Problems cost UK economy at least £118 billion a year

<sup>17</sup> Fel yr uchod

<sup>18</sup> Fel yr uchod

- 1.88 Mae strategaeth gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2012<sup>19</sup> yn cyfeirio at ymchwil sy'n awgrymu fod, cyn belled yn ôl â 2007-8, cost salwch meddwl i Gymru yn £7.2bn, gyda chyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth o £238.79 ar raglenni clinigol iechyd meddwl yn 2017-18<sup>20</sup>.
- 1.89 Roedd iechyd meddwl a theimlad o lesiant yn rhesymau hynod o bwysig dros gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored i 63 o ymatebwyr yr arolwg.

**Tabl 13 – Gwerth twristiaeth awyr agored i iechyd meddwl yng Nghymru**

Newidyn	Cyfanswm	O fewn Cymru
Amcangyfrif o nifer ymwelwyr unigryw (m)	1.26	0.88
Cyfran a oedd yn canolbwyntio ar fuddion iechyd meddwl (63%)	0.79	0.55
Tybio bod 20% yn cael eu cadw allan o'r gwasanaeth iechyd o ganlyniad	0.20	0.11
Cyfanswm blynyddol gwerth iechyd @£239 y pen	£47.5m	£26.5m

Ffynhonnell: Miller Research / Amryw

- 1.90 Felly, os ydym yn tybio bod 20 y cant o'r rheini sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored am resymau iechyd meddwl yn cael eu cadw allan o ymyrraeth glinigol, yna amcangyfrif ceidwadol (gan gymryd cyfanswm gwariant ar lefel y boblogaeth, yn hytrach na chost y pen y rheini sy'n *derbyn* ymyrraeth) o'r arbediad posibl i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol fyddai £47.5m ar lefel y Deyrnas Unedig a £26.5m i Gymru, fel y dangosir yn Nhabl 13 uchod.

<sup>19</sup> [Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Fersiwn Gryno 2012](#)

<sup>20</sup> [Cyllidebau Rhaglenni Gwariant y GIG 2017-18](#)

### Dadansoddiad Sensitifrwydd

- 1.91 Dyfeisiwyd model darogan effaith gymdeithasol gan Brifysgol Sheffield Hallam i Sport England<sup>21</sup>. Roedd hwn yn taflu golwg eang ar effaith gymdeithasol ac yn cynnwys amcangyfrifon am effaith ymylol cynnydd mewn cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar ystod o newidynnau. Roedd y rhain yn cynnwys iechyd corfforol a meddyliol, llesiant meddwl, datblygiad unigolion, a datblygiad cymdeithasol a chymunedol (gan gynnwys cyfalaf cymdeithasol).
- 1.92 Mae cymryd y ffigurau ar gyfer effeithiau cynnydd o 500K yn y nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon awyr agored a gweithredu'r un lluosyddion i ragamcanu effeithiau cynnydd o 10 y cant, 20 y cant a 30 y cant mewn cyfranogi mewn chwaraeon gweithgareddau awyr agored yng Nghymru yn cynhyrchu'r canlyniadau a ddangosir yn Nhabl 14.

**Tabl 14 – Gwerth twristiaeth awyr agored i iechyd meddwl yng Nghymru**

Cynnydd Rhagamcanol mewn Cyfranogi	10%	20%	30%
Cynnydd Cyfranogiad (m)	0.09	0.18	0.26
Iechyd Corfforol a Meddyliol (£m)	23.0	45.9	68.9
Llesiant Meddwl (£m)	112.1	224.1	336.2
Datblygiad Unigolion (£m)	0.9	1.8	2.7
Datblygiad Cymdeithasol a Chymunedol (£m)	51.2	102.5	153.7
Cyfanswm Effaith (£m)	187.1	374.3	561.4

Ffynhonnell: Miller Research, seiliedig ar Sheffield Hallam

- 1.93 Awgryma hyn y byddai cynnydd o 10 y cant mewn cyfranogi ymysg trigolion Cymru yn creu effaith gymdeithasol o £187.1m, tra gallai cynnydd o 30 y cant gynhyrchu £561.4m ar draws holl feysydd iechyd, datblygiad unigolion a chyfalaf cymdeithasol.


<sup>21</sup> <https://sportengland-production-files.s3.eu-west-2.amazonaws.com/s3fs-public/2020-09/Social%20return%20on%20investment.pdf?5BgVLn09jwpTesBJ4BXhVfRhV4TYgm9E>

### *Effeithiau ar hyder*

- 1.94 Gofynnwyd i ymatebwyr wedyn a oes unrhyw ffyrdd y mae eu profiad(au) antur yng Nghymru wedi newid eu hyder, ysbryd anturus, neu gysylltiad â natur, ac os felly, os ydych wedi sylwi arnynt eu hunain yn gwneud unrhyw beth yn wahanol o ganlyniad. O'r 273 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, mae mwyafrif llethol y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi gweithgareddau awyr agored fel rhan annatod eu bywyd, sydd wedi helpu gydag iechyd meddwl a chymbwysedd gwaith a bywyd. Mae hyn yn ategu'r canfyddiadau a amlygwyd yng Nghwestiwn 5. Roedd newidiadau eraill a grybwyllwyd yn cynnwys cyfranogwyr yn dysgu mwy am eu hardal leol a'i hanes, bod wedi ennill hyder a chydnerthedd trwy weithgareddau anturus megis dringo ac ogofa.
- 1.95 Yn ogystal, dywedodd cyfranogwyr eu bod yn teimlo mwy o werthfawrogiad o natur a'r amgylchedd a'u bod yn fwy ymwybodol yn amgylcheddol yn eu bywyd bob dydd. Roedd rhai cyfranogwyr wedi gwneud ffrindiau newydd hefyd ac wedi datblygu sgiliau fel mordwyo a chymorth cyntaf.
- 1.96 Fodd bynnag, dywedodd rhai cyfranogwyr fod y cynnydd mewn twristiaeth yn eu hardal yn sgil gweithgareddau awyr agored yn amharu ac yn tarfu arnynt.
- 1.97 Mae'r cwmwl geiriau canlynol, Ffigur 22, yn dangos amllder termau penodol a grybwyllwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.



**Ffigur 23 – Os ydych chi'n archebu anturiaethau trwy ddarparwr, pa mor bwysig i chi yw bod ganddynt synnwyr cryf o genhadaeth a phwrpas cymdeithasol?**



Ffynhonnell : Arolwg Cyfranogwyr C21, n= 432

*Dylanwadau Busnes Allanol*

- 1.100 Gofynnwyd i fusnesau am yr effaith a gafodd y pandemig Covid-19 ar eu busnesau dros y tair blynedd ddiwethaf (neu ers sefydlu'r cwmni os yw hynny'n llai na tair blynedd yn ôl).
- 1.101 Cafodd sawl ffactor negyddol eu rhestru, gyda'r ymateb mwyaf poblogaidd yn amlinellu bod effeithiau'r pandemig Covid-19 wedi bod yn drychinebus gan nad oedd dim busnes o gwbl, a bu llawer o fusnesau'n agos at orfod rhoi'r gorau iddi yn ystod y cyfnod hwn. Roedd ymatebwyr eraill nad oedd yn gallu gweithredu o gwbl yn ystod y cyfnod hwn a bydd hyn yn cymryd ychydig flynyddoedd iddynt adfer eu colledion.
- 1.102 Soniodd chwe ymatebydd pa mor anwadal oedd busnes yn ystod y cyfnod hwn, gyda thwristiaeth ysbeidiol, llai o weithgarwch, colli cwsmeriaid yn gyffredinol a cholled fawr o ran refeniw.
- 1.103 Roedd tri ymatebydd yn tynnu sylw at drosiant uchel o staff, gyda llawer o staff yn symud i sectorau eraill, yn ogystal â phryderon am iechyd meddwl eu staff. Soniodd tri ymatebydd arall fod effaith sylweddol o safbwynt rheoliadau newydd, glanhau, cyfarpar diogelu

personol, ac yn gyffredinol sut y bu'n rhaid i fusnesau addasu yn ystod Covid-19.


- 1.104 Fodd bynnag, amlygwyd rhai canlyniadau cadarnhaol i'r sector oherwydd y pandemig Covid-19. Dywedodd chwe ymatebydd fod eu busnesau wedi "bownsio'n ôl" yn gyflym ac wedi arwain at eu blynyddoedd masnachu gorau hyd yma yn 2021 a 2022. Roedd pedwar ymatebydd yn cysylltu llwyddiant busnes gyda chyfranwyr wedi canfod gwerthfawrogiad newydd o'r awyr agored (sy'n gysylltiedg â galw yn y blynyddoedd yn dilyn Covid19).
- 1.105 Yn ogystal, roedd dau ymatebydd wedi defnyddio eu hamser tawelach yn ystod y cyfnodau clo Covid-19 i symleiddio eu busnes, meddwl am gyfeiriad eu busnes, a defnyddio technoleg newydd a ffyrdd newydd o weithio. O ganlyniad, maent yn teimlo bod eu busnesau wedi datblygu'n rhywbeth "newydd a ffres".
- 1.106 Roedd ffactor allanol arall y gofynnwyd amdano yn yr arolwg i fusnesau yn ymwneud ag effaith yr 'Argyfwng Costau Byw' presennol ar fusnesau, gyda 83 y cant o fusnesau yn nodi bod effaith.
- 1.107 Roedd y ffactorau a restrwyd gan y busnesau hynny ynghylch yr effaith mae'r argyfwng costau byw yn ei gael ar eu busnes yn cynnwys llai o archebion a mwy yn canslo, gan gynnwys archebion gan grwpiau ysgol yn sgil lleihad yn yr adnoddau sydd ar gael i ysgolion. Yn ogystal, mae cynnydd mewn costau trafndiaeth a llety i ymwelwyr yn amlwg ar y nifer o ymwelwyr â gweithgareddau awyr agored. Cafodd costau cynyddol tanwydd, staff ac offer hefyd eu rhestru, gyda Brexit hefyd yn cael ei restru fel ffactor mewn costau cynyddol prynu offer.
- 1.108 Roedd darparwyr gweithgareddau awyr agored y cyfwelwyd â hwy yn nodi amryw o'r un problemau ynghylch y pandemig Covid-19 gan gynnwys cau i lawr ar y cychwyn a effeithiodd ar y galw am weithgareddau ac arweiniodd hyn yn ei droi at gau rhai darparwyr a oedd wedi bod â phroblemau ariannol hirdymor. Fodd bynnag, roedd y sector wedi gweld twf cryf wrth ailgodi'n fwy diweddar. Er bod hyn



yn cael ei groesawu, canfuwyd gan ddarparwyr bod y twf hwn yn her i'w reoli oherwydd anawsterau gyda phrinder staff â'r cymwysterau addas a mewnlifau mawr o ymwelwyr i ardaloedd bach a oedd yn ei chael yn anodd dygymod â'r galw gormodol, yn enwedig i leoliadau bwyd a llety. Er bod rheoli'r galw anwadal am weithgarwch antur awyr agored yng Nghymru wedi bod yn her i fusnesau, y gobaith yw y bydd y galw yn normaleiddio yn 2023 ac y bydd busnesau'n gallu cynllunio'n well ar gyfer y galw disgwylidig a rheoli'r llif o ymwelwyr mewn modd mwy cynaliadwy, gyda nifer o fusnesau eisoes yn chwilio am safleoedd newydd a mwy o gydweithio gyda rhanddeiliaid lleol er mwyn rheoli llanw a thrai'r galw drwy gydol y flwyddyn.

1.109 Gofynnwyd i fusnesau wedyn sut roeddent yn disgwyl y bydd trosiant eu busnes, a maint eu gweithlu, yn newid yn y tair blynedd nesaf. Fel y dangosir yn Ffigur 24, roedd 29 y cant o fusnesau yn meddwl y byddai eu trosiant yn cynyddu, a 19 yn meddwl y byddai maint eu gweithlu yn cynyddu, ond credai'r mwyafrif o fusnesau y byddai eu trosiant a maint eu gweithlu yn aros yr un fath.

**Ffigur 24 – Yn y tair blynedd nesaf, sut ydych chi'n rhagweld y bydd trosiant a gweithlu eich busnes yn newid?**




Ffynhonnell: Arolwg Busnesau C22, n=43

- 1.110 Teimlai 85 y cant o'r busnesau a ymatebodd fod rhwystrau ar hyn o bryd rhag y potensial o dwf o fewn y sector gweithgareddau awyr agored. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys staffio a chostau yn wyneb llai o alw gan gwsmeriaid, cynnal y busnes trwy'r tymor isel, mwy o gystadleuaeth, yr angen am fuddsoddiad a chyllid, diffyg mynediad at ddŵr a thir mewn mannau, diffyg cyfleusterau, prinder llety am gost rhesymol ac ardoll bosibl ar ymwelwyr.
- 1.111 Roedd darparwyr gweithgareddau antur awyr agored yn amlygu nifer o rwystrau rhag twf yn ystod cyfweiliadau, gyda phwyslais penodol ar yr her o gyflogi digon o staff sydd wedi cymhwyso'n addas, law yn llaw â rheoli costau a threthi busnes gyda pwysau chwyddiant presennol a'r 'argyfwng' costau byw, rheoli galw mewn modd cynaliadwy drwy gydol y flwyddyn galendr a chyd-drafod â rhanddeiliaid lleol megis ysgolion a chleientiaid rheolaidd eraill er mwyn gwneud hynny.

#### *Gweithgareddau Busnes*

- 1.112 Fe wnaeth busnesau a gymerodd rhan yn yr arolwg amlinellu pa weithgareddau awyr agored sy'n cyfrannu fwyaf tuag at eu gweithgareddau a refeniw busnes. Cafodd y gweithgareddau eu categorio yn ddringo, chwaraeon dŵr, gweithgareddau dŵr a chreigiau, teithiau cerdded hir a gweithgareddau tir, ogofa, a chwaraeon awyr. Mae Ffigur 25 yn darlunio'r graddau mae'r categorïau o weithgareddau'n cyfrannu at y busnesau.

### Ffigur 25 – Pa weithgareddau awyr agored mae eich sefydliad / busnes yn eu darparu?



Ffynhonnell: Arolwg Busnesau C2, n=43

1.113 O'r graff mae'n amlwg mae gweithgareddau'n ymwneud ag ogofa a chwaraeon awyr yw'r gweithgareddau lleiaf cyffredin a ddarperir gan fusnesau yng Nghymru a gymerodd ran yn yr arolwg. Y gweithgareddau sy'n denu fwyaf, ar y llaw arall, yw teithiau cerdded hir a gweithgareddau ar y tir, a gweithgareddau chwaraeon dŵr. Cafodd y gweithgareddau hyn eu dewis hefyd fel y rhai pwysicaf yn fasnachol i'r usnesau.

#### *Busnes yng Nghymru*

1.114 Gofynnwyd i'r busnesau a oedd yn cymryd rhan i rannu eu barn ar y manteision ac anfanteision o gael busnes yn ymwneud â thwristiaeth yng Nghymru. Dangosir y rhain yn Nhabl 15 a gellir eu defnyddio fel mannu cychwyn ar gyfer argymhellion ynghylch datblygiadau a gwelliannau i'r diwydiant twristiaeth.

**Tabl 15 – Manteision ac anfanteision a restrwyd gan fusnesau o gael eu busnes yng Nghymru**

Manteision	Anfanteision
Amrywiaeth o dirweddau, golygfeydd, daearyddiaeth, a mathau o hinsawdd	Dim digon o gefnogaeth ac anogaeth i weithio yn y sector
Lleoliad gwych a hawdd ei gyrraedd	Problemau hygyrchedd i gerbydau
Iaith, diwylliant a hanes	Ffiniau gwleidyddol – cystadleuaeth yn Lloegr ac anawsterau Brexit
Amrywiaeth o afonydd, argaeau a llynnoedd	Marchnad ddirlawn yn cynnig gwasanaethau tebyg
Golygfeydd a thir rhyfeddol ac anghysbell	Diffyg meddwl cyfweithredol
Bywyd gwylt a natur toreithiog	Gwasanaeth gwael i gwsmeriaid, anghyfeillgarwch
Agos at ganolfannau poblogaeth mawr	Pellter oddi wrth boblogaethau mawr neu leoedd â dwysedd poblogaeth uchel
Rhwydweithiau cenedlaethol a rhanbarthol da	Rhwydweithiau teithio gwael, cyflwr gwael seilwaith a phroblemau logistaidd
Lle da i gael at weithgareddau, adnoddau, natur a llecynnau agored	Diffyg dealltwriaeth o anghenion diwydiant twristiaeth yng Nghymru
Harddwch naturiol eithriadol	Natur dymhorol, tywydd gwael ac anwadal

Ffynhonnell: Arolwg Busnesau C4, n=40

### 3. Casgliadau ac Argymhellion

#### Casgliadau

- 3.1 Dengys yr astudiaeth hon fod twf cryf wedi bod yn y sector twristiaeth gweithgareddau awyr agored ers yr astudiaeth flaenorol yn 2014. Mae arolwg ymwelwyr Prydain Fawr yn amcangyfrif twf o 75 y cant yn y nifer o bobl a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon antur a chwaraeon dŵr rhwng 2011 a 2019 ac adlewyrchir hyn yng nghanlyniadau'r astudiaeth.
- 3.2 Yn fwy diweddar, mae'r sector Twristiaeth wedi ailgodi'n ôl ar ei draed o gwmp serth mewn galw yn ystod y pandemig Covid-19, er ei fod yn dal heb ddychwelyd i frig yr hyn roedd cyn y pandemig.<sup>22</sup> Roedd hyn yn her gref, ond un i'w chrosawu, i ddarparwyr gweithgareddau awyr agored sydd wedi gorfod addasu eu cynnig i ddiwallu'r adfywiad annisgwyl o gyflym hwn mewn galw a lesteiriwyd, gan weithio o fewn cyfyngiadau parhaus o brinder staff wedi eu cymhwyso'n addas a chyfleusterau lleol cyfyngedig i letyau'r mewnlifau mawr o ymwelwyr mewn 'poethfannau' poblogaidd ledled Cymru.
- 3.3 Mae strategaethau ar gyfer rheoli'r anwadalwch mawr hwn mewn galw wedi cynnwys cydweithio'n agosach gyda darparwyr llety a chyfleusterau lleol i gynyddu eu cynnig, ceisio safleoedd eraill llai poblog i redeg gweithgareddau awyr agored a chydweithio'n agosach â darparwyr gweithgareddau awyr agored eraill. Er bod darparwyr yn teimlo eu bod yn gallu rheoli'r newid hwn maent yn croesawu patrwm mwy arferol o alw yn 2023 a hoffent weld mwy o ddata ar gael ar natur a graddau'r galw i helpu gyda chynllunio busnes a chymorth strategol a chydgyssylltu ehangach i'r sector yn ei gyfanrwydd.
- 3.4 Yn ogystal, mae'r astudiaeth hon wedi dangos bod ymwelwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau awyr agored yn gwario mwy fesul person

---

<sup>22</sup> [Baromedr Twristiaeth: Cam Chwefror 2023 | LLYW.CYMRU](#)

ar gyfartaledd nag ymwelwyr eraill i Gymru, yn enwedig pan maent yn ymwneud â darparwyr gweithgareddau awyr agored.

- 3.5 Datblygiad allweddol yw bod y cymhellion dros ymwneud â gweithgareddau awyr agored yn ymddangos fel pe baent wedi symud yn ddramatig o bwyslais ar chwaraeon cyffro adrenalin i ddynion yn bennaf at sector mwy cytbwys rhwng y rhyweddau gyda'r prif bwyslais ar iechyd a llesiant, ac iechyd meddwl yn benodol.
- 3.6 Yn ogystal, dengys yr astudiaeth hon allu sianelau cyfryngau cymdeithasol i ennyn diddordeb demograffeg ehangach o bobl mewn dilyn gweithgareddau awyr agored yng Nghymru, gan gynnwys pobl iau, pobl sydd â llai o brofiad mewn gweithgareddau awyr agored a phobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Er bod darparwyr gweithgareddau awyr agored yn croesawu gallu cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd marchnadoedd newydd, y teimlad oedd y byddai angen i unrhyw hyrwyddo gael ei gynnal yn strategol er mwyn sicrhau nad yw'n achosi galw gormodol mewn ardaloedd na ydynt mewn sefyllfa i ddygymod â galw o'r fath a bod neges iechyd a diogelwch gref i ddechreuwyr gweithgareddau awyr agored.

### **Argymhellion**

- 3.7 Dylai gwerth darparwyr gweithgareddau awyr agored o ran cefnogi iechyd meddwl a chorfforol gael ei gydnabod yn ehangach, gyda photensial am i fwy o bresgripsiynu cymdeithasol gael ei ariannu trwy gyllidebau iechyd.
- 3.8 Byddai darparwyr gweithgareddau awyr agored yn croesawu gwell trefn o gasglu data er mwyn gwella eu dealltwriaeth o raddau a natur y galw presennol a'r galw rhagamcanol i helpu gyda chynllunio busnes a chydgyssylltu o fewn y sector yn ehangach. Yn ogystal, hoffai busnesau weld mwy o ymchwil ar werth economaidd a chymdeithasol twristiaeth gweithgareddau awyr agored yng Nghymru er mwyn adeiladu'r achos dros fwy o fuddsoddiad a chefnogaeth.

- 3.9 Oherwydd y twf cryf ym mhoblogrwydd twristiaeth gweithgareddau awyr agored yng Nghymru a'r pwysau o ganlyniad ar safleoedd allweddol, mae rôl i annog ymwelwyr i ymwneud â darparwyr gweithgareddau awyr agored er mwyn trosoli gwerth a gwariant. Byddai darparwyr yn croesawu hefyd fwy o gydgysylltu strategol wrth hyrwyddo a darparu gweithgareddau awyr agored, yn lleol ac yn genedlaethol. Y teimlad oedd y gallai Croeso Cymru hyrwyddo amrywiaeth fwy helaeth o safleoedd gweithgareddau ledled Cymru er mwyn osgoi rhai lleoedd penodol rhag dod yn orlawn o ymwelwyr na all cyfleusterau lleol eu lletya.
- 3.10 Lle bo lleoliadau'n profi galw gormodol, byddai cyfle am fwy o gydgysylltu rhwng darparwyr gweithgareddau awyr agored lleol i archwilio safleoedd newydd a allai fod yn llai prysur a mwy o gydweithio gyda chyfleusterau a rhanddeiliaid lleol i reoli'r galw presennol a'r galw rhagamcanol.
